3. Details of materials and detailed structural plans
4. Archaeology
5. Highway matters
6. Natural Resources Wales conditions (in terms of ecological matters and in terms of safeguarding the environment)
7. Biodiversity matters
8. Trees matters
9. Welsh Water conditions
10. Public Protection Matters

11. Rights of Way
12. Landscaping

Cais Rhif: C12/1451/15/LL
Dyddiad Cofrestru: 31/10/2012
Math y Cais: Llawn - Cynllunio
Cymuned: Llanberis
Ward: Llanberis

Bwriad: DATBLYGIAD CYFLEUSTER STORFA BWMP I GYNNWYS CRONFA UCHAF YN CHWAREL FAWR GYDA ARGAE CYSYLLTIOL, CRONFA ISEL YNG NGHLYNRHONWY GYDA ARGAE CYSYLLTIOL, ADEILAD YN CYNNWYS TYRBEINI, GWAITH PEIRIANYDDOL CYSYLLTIOL GAN GYNNWYS CREU TOMENNI LLECHI NEWYDD A GWYRO PRIFFYRDD

Lleoliad: SAFLE GLYN RHONWY, LLANBERIS, CAERNARFON, GWYNEDD, LL554EL

Crynodeb o'r Argymhelliad: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i gytuno ar amodau a threfniadau'r gronfa gymunedol gan gynnwys maint y cyfraniadau tebygol.

1. Disgrifiad:

- 1.1 Cais llawn am ganiatâd cynllunio i greu cyfleuster pwmpio a storio, sef yn syml, cynllun sydd yn creu trydan trwy ryddhau dŵr o gronfa ar dir uchel i lawr at ail gronfa ar dir sydd yn îs gan basio trwy generadur ar y ffordd sydd yn creu trydan. Mae'r trydan yna yn cael ei storio fel gyda batris cyffredin ag yn cael ei ddefnyddio gan y grid cenedlaethol ar adeg o alw brys. Mi fydd yr orsaf wedi ei gorffen yn gallu cynhyrchu hyd at 49.9 megawat o drydan.
- 1.2 Mae lleoliad y datblygiad yn rhannol oddimewn safle Glynrhonwy sydd wedi ei leoli oddeutu 1 milltir i'r gogledd orllewin o bentref Llanberis. Mae gweddill y safle yn ymestyn tu hwnt i safle Glynrhonwy ei hun uwchlaw Ffordd Clegir tuag at mynydd Cefn Du. Mae rhan uchaf y safle yn hygyrch o ochr Waunfawr i Gefn Du gyda ffordd gyhoeddus yn arwain i fyny'r mynydd o gyfeiriad Groeslon Waunfawr.
- 1.3 Mae safle'r cais yn ei gyfanrwydd yn mesur 59.3 hectar gyda defnydd hanesyddol cymysg iddo dros y blynyddoedd gan gynnwys chwarel a gweithfeydd llechi, defnydd diwydiannol amrywiol, coedwig fasnachol a thir pori amaethyddol (sydd yn gymysgedd o dir preifat a thir y Goron). Mae cyffordd llydan a safonol bresennol oddiar priffordd yr A4086 i mewn i ochr Glynrhonwy o'r safle gyda ffordd safonol yn arwain at safle ffatri Siemens (Euro DPC gynt) tra fod y ffordd sydd yn arwain at safle'r cais, yn gwyro oddiar y brif ffordd ag yn arwain heibio llwyfannau sydd eisioes wedi eu creu o fewn y safle ar gyfer defnydd diwydiannol. Mae'r ffordd o gyfeiriad Waunfawr yn ffordd gul fynyddig gyda manau pasio achlysurol ar ei hyd. Mae safle Glynrhonwy ei hun (i fyny at y ffin gyda Ffordd Clegir) wedi ei ddynodi yn benodol fel safle ailddatblygu yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd ag wedi ei amgylchynu yn rhannol gyda ffens barhaol i'w ddiogelu. Rhan o safle eang Glynrhonwy a fwriedir ei ddefnyddio fel rhan o'r datblygiad arfaethedig, ni fydd unrhyw ran o'r datblygiad yn agos i safle ffatri Siemens na'r ardal a adnabyddir fel Coed Doctor.

- 1.4 Mae ardal y cais sydd i gynnwys y cronfa uchaf ar dir agored Cefn Du, mae rhwydwaith o lwybrau presennol yn croesi'r tir ag fe welir olion gweithfeydd a chwareli llechi hanesyddol yn wasgaredig yn yr ardal gyda thiroedd pori presennol ar hyd y mynydd.
- 1.5 Defnydd amaethyddol a diwydiannol sydd wedi bod i'r tir hwn yn hanesyddol, mae'r defnydd diwydiannol bellach wedi dod i ben ers nifer fawr o flynyddoedd tra fod y defnydd amaethyddol o'r tir yn nodweddiadol o'r math yma o ucheldir yn y rhan yma o'r Sir.
- 1.6 Mae'r cynlluniau a'r gwybodaeth manwl a gyflwynwyd gyda'r cais yn egluro cefndir y datblygiad, addasrwydd y safle ar gyfer y math yma o ddatblygiad a'r camau ag ystyriaethau a wnaed i ddewis safle terfynol er mwyn ei gyflwyno fel cais cynllunio ffurfiol. Fe welir fod ystyriaethau blaenorol wedi cynnwys cynnwys trydydd cronfa, lleoliad gwahanol i'r orsaf bŵer, gosod pibelli trwy agor ffosydd ag yna eu llenwi, cario gwastraff oddiar y safle ayyb.
- 1.7 Yn gryno, mi fydd y bwriad yn cynnwys y prif elfennau canlynol:
- Creu cronfa uchaf (Chwarel Fawr)
 - Creu cronfa isaf (Glynrhonwy)
 - Codi Gorsaf Bŵer – i gynnwys y pwmp/tyrbein gyfunol
 - 'Penstock' – gosod pibell i gysylltu'r gronfa uchaf gyda'r Gorsaf Bŵer
 - 'Tailrace' – gosod pibell i gysylltu'r Gorsaf Bŵer gyda'r gronfa isaf
 - Gorlifan – pwynt arllwysiad o'r gronfa uchaf a phwynt arllwysiad/echdyniad o'r gronfa isaf
 - Adeilad Pwmpio – ar gyfer echdynnu dŵr o Lyn Padarn yn ystod y cyfnod adeiladu
 - Nodir yma mai twnelu o dan y ddaear yw'r bwriad i gysylltu'r cronfeydd gyda'u gilydd, roedd y bwriad yn wreiddiol yn cyfeirio at agor ffosydd enfawr, gosod pibelli ag yna eu claddu, ni wneir hyn ar ran uchaf y safle o gwbl, dim ond trwy greu y cysylltiad o gronfa Glynrhonwy at Llyn Padarn. Mae llinell y bibell fydd yn rhedeg o gronfa Glynrhonwy tuag at y Llyn yn cael ei osod drwy rannau o'r safle sydd eisioes wedi ei ddatblygu, yna fe redai yn gymharol agos i safle'r hen storfa bomiau ar ran isaf y safle, ag yna ymlaen at gyfeiriad y Llyn ei hun trwy ardal Y Glyn.
- 1.8 Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn disgyn oddimewn i ddisgrifiad a meini prawf Cofrestr 1 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Lloegr a Chymru) 1999. Er hynny, mae'n ddatblygiad sydd yn disgyn o fewn disgrifiad datblygiad fel a ddiffinir ym mharagraff 3 (a) a 3 (h) (Diwydiant Ynni) o'r Rheoliadau ar sail maint ardal y datblygiad a'r hyn a gynhyrchir. Yn dilyn sgrinio ag asesiad ffurfiol o'r bwriad yn unol a gofynion a meini prawf Cofrestr 3 ag ar sail maint, natur ag agosatrydd y safle at safleoedd ardaloedd wedi eu gwarchod, mae Asesiad Effaith Amgylcheddol llawn wedi ei gyflwyno gyda'r cais hwn.
- 1.9 Fel sydd yn ofynnol er mwyn cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaethol cyfredol, cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol ar ffurf dogfennau ffurfiol:
- Datganiad Dylunio a Mynediad
 - Datganiad Cynllunio
 - Cynlluniau manwl i gyd-fynd a'r Datganiad Cynllunio
 - Datganiad Amgylcheddol – cyfrol 1 – Prif Destun
 - Datganiad Amgylcheddol – cyfrol 2 – Ffigyrau
 - Datganiad Amgylcheddol – cyfrol 3 – Atodiad Technegol
 - Datganiad Amgylcheddol – cyfrol 3 – Atodiad Technegol 2.5 & 7.3
 - Datganiad Amgylcheddol – cyfrol 3 – Atodiad Technegol ar gyfer Cyngor Cefngwlad Cymru (cyfrinachol)

- Datganiad Amgylcheddol – cyfrol 3 – Atodiad Technegol ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd (cyfrinachol)
- Datganiad Amgylcheddol – cyfrol 4 – Crynodeb Anhechnegol
- Datganiad Ieithyddol a Chymunedol
- Datganiad Ymrwymiad Cymunedol
- Datganiad Coed
- Datganiad Dull Arolygu Dŵr
- Cynllun Lliniaru Ystlumod
- Asesiad ASIDOHL - gan gynnwys fersiwn diwygiedig (asesiad penodol sydd yn ystyried effaith datblygiad arfaethedig ar dirweddau wedi eu gwarchod neu ddynodi)
- Er eglurdeb, mae asesiadau wedi eu cynnwys oddimewn i'r dogfennau uchod megis Asesiad Effaith Llifogydd, Asesiad Trafnidiaeth ayyb ag nid fel dogfennau penodol arwahan.

2. Polisiâu Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:

MYND ATI I WEITHREDU’N RHAGOFALUS - POLISI STRATEGOL 1

Gwrthodir cynigion datblygu a fydd yn cael effaith annerbyniol ac amhendant ar yr amgylchedd, y gymdeithas, yr economi neu ar yr iaith Gymraeg neu gymeriad diwylliannol cymunedau ardal y Cynllun, oni bai y cyflwynir asesiad o effaith priodol sy'n profi heb amheuaeth y gellir negyddu neu leihau'r effaith mewn modd sy'n dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio.

YR AMGYLCHEDD NATURIOL - POLISI STRATEGOL 2

Bydd amgylchedd naturiol a chymeriad tirwedd yr ardal a golygfeydd i mewn ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Ynys Môn a Llŷn, yn cael eu cynnal neu eu gwella trwy wrthod cynigion datblygu a fydd yn eu niweidio'n arwyddocaol.

TREFTADAETH ADEILEDIG A HANESYDDOL - POLISI STRATEGOL 3

Bydd treftadaeth adeiledig a hanesyddol yr ardal yn cael ei hamddiffyn rhag datblygiadau a fyddai'n ei niweidio'n arwyddocaol a disgwylir i ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd hanesyddol gyd-fynd â safonau dylunio arbennig o uchel a fydd yn cynnal neu wella'u cymeriad arbennig.

DATBLYGIADAU SY’N CREU RISG - POLISI STRATEGOL 5

Bydd datblygiadau sy'n anghyson â'r angen i warchod gorlifdiroedd neu ostwng y perygl o lifogydd a datblygiadau sy'n creu risg o ddifrod annerbyniol i iechyd, eiddo neu'r amgylchedd yn cael eu gwrthod.

AILDDATBLYGU AC AILDDEFNYDDIO TIR A DDEFNYDDIWD EISOES - POLISI STRATEGOL 6

Rhoddir blaenoriaeth uchel i wneud defnydd addas a phriodol o dir a ddefnyddiwyd o'r blaen sy'n addas i'w ddatblygu neu adeiladau sy'n wag neu ddim yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

Dylai datblygiad wneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o dir neu adeiladau yn nhermau dwysedd, lleoliad a gosodiad.

YNNI - POLISI STRATEGOL 9

Caniateir cynlluniau i ddarparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy na fyddai'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

TRAFNIDIAETH - POLISI STRATEGOL 12

Caniateir cynlluniau trafndiaeth sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith trafndiaeth strategol ac integredig a nodwyd yn y Diagram Allweddol, sy'n ymestyn y dewis o ddulliau teithio, yn hwyluso hygrychedd y boblogaeth leol ac yn dangos manteision clir o ran effeithlonrwydd a diogelwch y rhwydwaith, os nad ydynt yn arwain at gynnydd annerbyniol yn yr angen i deithio, neu'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

TIR DIWYDIANNOL - POLISI STRATEGOL 15

Bydd tir ac eiddo yn ardal y Cynllun a ddefnyddir ar gyfer diwydiant a busnes fel arfer yn cael ei gadw a'i warchod ar gyfer y dibenion hynny.

POLISI A1 - ASESIAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIAU EFFEITHIAU ARALL
Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU

Diogelu cydlynid cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI A3 - EGWYDDOR RAGOFALUS

Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

POLISI B7 - SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL

Gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

POLISI B10 - DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD

Yn diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Tirlun drwy sicrhau fod yn rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL

Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

POLISI B14 - GWARCHOD CYMERIAD TIRWEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Gwarchod cymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri drwy wahardd cynigion sy'n ymwthio'n weledol a/neu sydd wedi eu lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.

POLISI B15 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOL

Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o'r fath.

POLISI B16 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL

Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, mwyhau a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B17 - GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCAD RHANBARTHOL NEU LEOL

Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B19 - COED, COEDLANNAU A GWRYCHOEDD A SY'N CAEL EU GWARCHOD

Caniatáu cynigion fydd yn golygu colli neu ddifrod i goeden, coedlan neu wrych sy'n cael eu gwarchod dim ond pan fydd buddion economaidd a/neu gymdeithasol y datblygiad yn gwrthbwysio unrhyw niwed.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL

Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B23 - MWYNDERAU

Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO

Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B32 - YCHWANEGU AT DDWR WYNEB

Gwrthod cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llif neu fesurau lliniaru priodol fydd yn arwain at ostwng maint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsgiau dŵr eraill.

POLISI B33 - DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD

Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI B34 - LLYGREDD GOLAU A GOLEUNI

Sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd.

POLISI C3 - AIL-DDEFNYDDIO SAFLEOEDD A DDEFNYDDIWDYD O'R BLAEN

Cymeradwyr cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i aildefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled ag y bo'r safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas.

POLISI C5 - SAFLEOEDD AIL-DDATBLYGU

Caniateir cynigion datblygu ar safleoedd a nodwyd fel safleoedd ailddatblygu cyn belled a'u bod yn gyson â'r briffiau datblygu perthnasol a/neu unrhyw brif gynllun ar gyfer y safleoedd y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gymeradwyo.

POLISI C6 - SAFLE AIL-DDATBLYGU GLYN RHONWY

Caniateir cynigion sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth neu hamdden safonol er budd cymunedau Gwynedd ar safle ailddatblygu Glyn Rhonwy os gellir sicrhau bod y datblygiad yn cyd-fynd â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud a materion diwylliannol, ieithyddol, mwynderol, amgylcheddol, gweledol a phriffyrdd. Nodir hefyd y dylid datblygu'r safle mewn modd integredig.

POLISI C7 - ADEILADU MEWN MODD GYNALIADWY

Gwrthodir cynigion ar gyfer datblygiadau newydd neu i addasu a newid defnydd tir neu adeiladau pan nad oes ystyriaeth wedi ei roi i faterion amgylcheddol penodol. Bydd yn rhaid i gynigion gydymffurfio a meini prawf penodol sydd yn ymwneud ag adeiladu mewn modd cynaliadwy, oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny.

POLISI C27 - CYNLLUNIAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHYNALIADWY

Caniatau cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

POLISI C29 - DIOGELU ADNODDAU DŴR

Gwrthodir cynigion a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol na ellid ei liniaru neu ei reoli'n effeithiol i ddŵr wyneb, ffynonellau dŵr daear neu ecosystemau dŵr ir.

POLISI CH22 - RHWYDWAITH BEICIO, LLWYBRAU A HAWLIAU TRAMWY

Gwarchodir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wahardd cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os na fydd hyn yn bosib bydd yn rhaid gwneud darpariaeth briodol i wyro'r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd boddhaol.

POLISI CH25 - FFYRDD NEWYDD A GWELLIANNAU FFYRDD

Caniateir cynigion ar gyfer gwelliannau i ffyrdd presennol ac i rannau newydd o ffyrdd os bydd cyfiawnhad digonol am y datblygiad ar sail economaidd a diogelwch y cyhoedd ac na fydd effaith amgylcheddol annerbyniol. Bydd angen i ddatblygwyr brofi bod opsiynau eraill wedi eu hystyried ac mai'r cynllun fydd yn amharu lleiaf ar yr amgylchedd a ddewiswyd ac y gellir cydymffurfio gyda chyfres o feini prawf penodol.

POLISI CH29 - GWARDHOD A GWELLA CYSYLLTIADAU I GERDDWYR

Gwrthodir cynigion o fewn Canolfannau a Phentrefi os nad ydynt yn darparu llwybrau cerdded diogel, deniadol ac uniongyrchol i gerddwyr ar draws ac allan o'r safle lle bo cyfle clir i wneud darpariaeth o'r fath.

POLISI CH30 - MYNEDIAD I BAWB

Gwrthodir cynigion ar gyfer unedau preswyl/busnes/diwydiant neu adeiladau/cyfleusterau at ddefnydd cyhoeddus os na ellir dangos y rhoddyd ystyriaeth lawn i ddarparu mynediad priodol i'r ystod ehangaf posib o unigolion.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD

Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI CH36 - CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT

Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

POLISI D5 - ANGHENION LLEOLI ARBENNIG

Mewn achosion eithriadol caniatáu lleoli datblygiadau diwydiannol/busnes ar safleoedd heb eu dynodi neu nas diogelwyd ar gyfer busnes/diwydiant os oes ‘anghenion lleoli arbennig’ gwirioneddol nad ellir eu diwallu ar Safle Cyflogaeth Safon Uchel neu Safle Diwydiannol.

Yn ogystal â'r uchod, rhoddir ystyriaeth lawn i Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mabwysiedig yr Awdurdod, sydd yn ystyriaethau materol a pherthnasol. Yn berthnasol yn yr achos yma, mae'r canlynol:

CCA - Briffiau Datblygu

CCA – Ymrwymadau Cynllunio

CCA – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

CCA – Cynllunio ar gyfer adeiladu'n gynaliadwy

CCA – Cymeriad y Tirwedd

CCA – Safleoedd Bywyd Gwyllt

2.3 Polisiâu Cenedlaethol:

Polisi Cynllunio Cymru fersiwn 5 2012

Pennod 3 - gwneud penderfyniadau cynllunio a'u gorfodi

Pennod 4 – cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd

Pennod 5 - gwarchod a gwella'r dreftadaeth naturiol a'r arfordir

Pennod 6 – gwarchod yr amgylchedd hanesyddol

Pennod 7 – datblygu economaidd

Pennod 8 – trafndiaeth

Pennod 13 – cyfyngu ar risgiau amgylcheddol a llygredd a'u rheoli

Nodyn Cyngor Technegol (NCT)

NCT 5 : cynllunio a chadwraeth natur

NCT 8 : ynni adnewyddadwy

NCT 10 : gorchmynion cadw coed

NCT 11 : sŵn

NCT 18: trafndiaeth

NCT 20 : yr iaith gymraeg

NCT 22: cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy

NCT Mwynau (Cymru) 1

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

3.1 Mae hanes cynllunio hirfaith yn ymwneud â'r safle eang hwn gan gynnwys:

- Caniatad am waith paratoi o fewn rhan isaf Glynrhonwy o'r safle i osod seilwaith ag is-adeiledd a chreu llecynnau ar ffurf 'llwyfan' i ddarpar ddefnyddwyr

- Ceisiadau i gynnal gwaith i goed wedi eu gwarchod
- Codi ffatri Siemens a cheisiadau dilynnol o fewn y safle
- Tynnu llechi
- Gwaith adfer a thirlunio
- Yn ogystal a'r amrywiol geisiadau cynllunio ffurfiol, fe gofir fod cynlluniau uchelgeisiol wedi eu trafod yn y gorffennol i ddatblygu'r safle hwn gan gynnwys creu pentref gwyliau, canolfan sgïo dan dô, canolfan beicio mynydd ayyb.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned Waunfawr:	Cefnogir y bwriad mewn egwyddor ond amlygir pryder ynglyn ag effaith cerbydau trwm ar dai, eiddo a phlant o fewn ardal y ffordd o Groeslon Waunfawr tuag at Cefn Du, angen sicrhad ynglyn a'r cynllun a phwy fydd yn gwarchod buddiannau'r trigolion lleol, bydd angen cyfyngu ar amseroedd lorïau, pryder ynglyn a safon y ffordd bresennol.
Aelod Lleol Waunfawr:	Ni wrthwynebir y bwriad gan fod cynlluniau i greu ynni trwy ddulliau adnewyddol yn ran o bolisiau mabwysiedig y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Er hynny, mae angen gwarchod buddiannau trigolion ar ffordd Cefn Du rhag difrod i'w eiddo o ganlyniad i symudiadau ar y ffordd. Dylid felly sicrhau fod y ffordd yn cael ei uwchraddio cyn cychwyn ar y datblygiad, angen amod i warchod buddiannau trigolion lleol os difrodir eiddo, angen gwarchod llwybrau cyhoeddus ag angen defnydd o lafur lleol a chynnig hyfforddiant priodol i drigolion lleol.
Cyngor Cymuned Llanddeiniolen:	Gofynir sut y cysylltir y safle gyda'r grid cenedlaethol, a fydd angen codi peilonau newydd rhwng a safle a Phentir ?
Cyngor Cymuned Llanberis:	Heb eu derbyn.
Parc Cenedlaethol Eryri:	Oherwydd lleoliad a natur y datblygiad, ni chredir y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r Parc.
CADW:	Os caiff mesurau lliniaru eu dilyn sef cofnodi unrhyw adeilad neu strwythur i'w ddimchwel, cofnodi'r tirwedd yn gyffredinol a chofnodi unrhyw gofeb a ddarganfyddir, ni fydd effaith niweidiol sylweddol ar dirwedd hanesyddol Dinorwig, cydnabyddir y bydd effaith sylweddol ar ardal chwarel Glynrhonwy ond mae'n rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun cymeriad presennol y tirlun a'i ddefnydd diwydiannol ers 19eg ganrif.
Gwasanaeth Cynllunio Archaeoleg Gwynedd:	Adolygiad i'r asesiad archaeolegol ag ASIDOHL diwygiedig yn dderbyniol ag yn cyrraedd y safon derbyniol. Asesiad Archaeolegol - Mae'r gwaith yn debygol o olygu y bydd olion newydd yn cael eu datgelu felly awgrymir cynnwys amod ffurfiol er mwyn sicrhau y bydd yr olion hyn yn cael eu diogelu. ASIDOHL – effaith ar y tirlun hanesyddol yn cael ei gofnodi fel isel ond mae'n amlwg y bydd effaith sylweddol a cholled o nodweddion presennol o fewn ardal Chwarel Glynrhonwy, mae'r twnelu o fudd i leihau'r effaith, ni fydd effaith ar y storfa bomiau ar ran isaf safle Glynrhonwy, mi fydd angen cynnwys mesurau lliniaru effaith trwy amod ffurfiol.

Uned Drafnidiaeth:

Ni wrthwynebir y bwriad mewn egwyddor ond mae rhai agweddau ynglyn a'r bwriad yn parhau yn aneglur, er hynny, teimlir y gellir rheoli'r agweddau hyn trwy amod a chytundebau safonol.

Ffordd Cefn Du – mae'r gwaith lledu yn golygu defnyddio tir ym mherchnogaeth eraill, ni gyflwynwyd tystiolaeth ar ffurf cytundebau gyda'r tirlfeddianwyr hyn, mae'r gwaith lledu yn elfen hanfodol er mwyn darparu ffordd o safon, heb yr elfen yma ni ellir cael mynediad addas ar gyfer rhan Cefn Du o'r safle. Rheolir a chytunir ar fanylion trwy gytundeb 278 o'r Ddeddf Priffyrdd.

Groeslon Waunfawr – cyfeirir yn y wybodaeth at faes parcio i'w greu yn yr ardal yma, er na gyflwynwyd manylion y lleoliad na pherchnogaeth tir i gyd-fynd a'r datganiad yma.

Safle Cefn Du – mae'r bwriad yn golygu gwyrō'r ffordd bresennol dros y mynydd (er nad yw wedi ei gwynebu, mae yn ffordd ddo-barth cydnabyddedig), gan fod rhan o'r ffordd bresennol yn croesi rhan o'r gronfa arfaethedig, nid yw hyn yn glir os bydd y gwyrō yn barhaol neu dros dro ag os bydd rhaid gwyrō iddo fod cyn lleied a phosib o wyriad, rheolir hyn trwy gytundeb gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd llif y traffig yn drwm yn ystod y cyfnod adeiladau, awgrymir ymrwymo a chytuno i drefniant monitro ar y cyd gyda'r adran briffyrdd, gwaith cynnal y ffyrdd a bod cost unrhyw waith cysylltiedig ar draul y datblygwr yn unig. Rhaid cyflwyno cynllun rheoli traffig adeiladu cyn cychwyn ar y gwaith.

Awgrymir cynnwys amodau a chyfarwyddyd safonol pellach er mwyn diogelu mwynderau priffyrdd.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Derbyniwyd sylwadau gwreiddiol ar wahan gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefngwlad Cymru. Ers uno'r cyrff yma, derbyniwyd ymateb yn dilyn yr ail-ymgyngori o dan enw'r corff newydd a oedd yn ymgorffori'r sylwadau blaenorol a roddwyd gan amlygu yr angen i gynnwys sylwadau ag amodau blaenorol 'Asiantaeth yr Amgylchedd' sef amodau safonol ynglyn a diogelu cyrsiau a ffynhonnellau dŵr presennol gan gynnwys Llyn Padarn, cyfarwyddyd fod angen trwydded amgylcheddol ar gyfer gollyngiad dŵr o'r safle i'r llyn, materion halogaeth y safle/perylgl llifogydd a draeniad.

Ni wrthwynebir y bwriad ond mae angen cynnwys amodau safonol i osgoi gwasgaru rhywogaethau estron o fewn y tirlun a systemau dŵr, rheolir datblygiad ar lan y llyn trwy gynnwys yr amodau newydd yma ag amodau blaenorol yr asiantaeth ag felly ni chreidir y byddai effaith andwyol gormodol ar 'SSSI' Llyn Padarn.

Ystlumod – dim effaith andwyol os bydd y mesurau lliniaru fel a nodir yn cael eu dilyn.

'Floating Water Plantain' – amod i gynnal arolwg o ardal y Llyn ble gosodir y bibell er mwyn canfod beth sydd yno er nad oes cofnod presennol ar hyn o bryd o bresenoldeb planhigion wedi eu gwarchod.

Adar – presenoldeb adar wedi eu gwarchod o fewn y safle, bwriad i dwnelu yn lleihau'r effaith arnynt ond awgrymir amod i'w diogelu.

Ymlusgiaid – nifer isel o enghreifftiau yn defnyddio'r safle ond awgrymir amod i'w diogelu

Dyfrgwn – er ei bod yn debygol fod dyfrgwn yn defnyddio rhannau o draethlin Llyn Padarn ar gyfer bwydo/chwilota/cymudo, nid oes tystiolaeth o dyllau gorffwys/byw yno, angen bod yn wyliadwrs

yn ystod cyfnod adeiladu.

Adran 42 Deddf Rhywogaethau a Chynefinoedd – angen ymgynghori'n llawn o dan y gofynion yma gyda phartion eraill gan gynnwys uned bio-amrywiaeth y cyngor er mwyn sicrhau y diogelir yr holl faterion perthnasol.

Tirlun – mae'r safle o fewn Tirlun Cofrestredig Hanesyddol Dinorwig ag yn agos i ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Ni ystyrir y byddai effaith andwyol ar y Parc ag oherwydd y bwriad i dwnelu mae'r effaith yn gyffredinol wedi ei leihau. Er hynny, mi fydd yr effaith ar gymeriad Chwarel Glynrhonwy yn sylweddol ond trwy ddilyn y mesurau lliniaru, effaith lleol yn unig a ddigwyddir ar y tirlun hanesyddol yn ei gyfanrwydd.

Cyswllt a'r grid trydan – dywedir yn y wybodaeth a gyflwynwyd mai cysylltiad o fewn y rhwydwaith ffyrdd presennol a wneir rhwng y safle a safle'r grid cenedlaethol ym Mhentir. Mi fyddai'n rhaid datgelu'r union fanylion yma pan wneir y cysylltiad er mwyn sicrhau na fyddai effaith andwyol ar rywogaethau a safleoedd a warchodir.

Cadarnheir os bydd y datblygiad yn y ffurf bresennol yn cydymffurfio gyda'r amodau a gyflwynir, ni wrthwynebir y bwriad.

Uned Bio-amrywiaeth:

Cyflwynwyd sylwadau cychwynnol yn datgan pryder ynglyn ag agweddau penodol o'r datblygiad arfaethedig, cynhaliwyd trafodaethau helaeth ynglyn a materion perthnasol a cyflwynwyd gwybodaeth ychwanegol/diwygiedig mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Nodir y materion perthnasol yn y ffurf canlynol:

- Cynefinoedd – ar sail y wybodaeth sydd eisioes wedi ei gyflwyno a gwybodaeth diweddarach, ni ofynir am wybodaeth pellach yn nhermau mapiau botaneg y chwarel
- Tir coedwigaeth – mae asesiadau pellach i'w cynnal, rhoddir sylw ar y materion hyn o'u derbyn (yn unol ag amod ffurfiol)
- Arolwg 'Invertebrate' – ni ofynwyd am yr arolwg hyn cyn penderfynu'r cais, ystyrir y byddai'n bosib ystyried ag asesu'r wybodaeth o'i dderbyn cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn trwy amod ffurfiol
- Ystlumod – derbynir fod arolygon pellach yn cael eu cynnal a bod strategaeth lliniaru wedi ei gytuno arno gyda CNC.
- Adar – mae'r gwybodaeth a gyflwynwyd (gan gynnwys ymateb RSPB) gan gynnwys Datganiad Dull yn dderbyniol. Derbynir fod arolygon cyson yn parhau ag awgrymir cynnwys ardaloedd agored yn yr asesiadau yn ogystal a'r ardaloedd a nodwyd eisioes.
- Planhigion – nodir y sylwadau ynglyn a rhedyn Wilson Filmy.
- Ffyngau – nodir y sylwadau
- Cen – gofynir am ymgynghoriad i drafod ail-leoli cyn i hyn ddigwydd
- Moch Daear – nodir y wybodaeth a gyflwynwyd a gofynir am drafodaethau pellach os canfyddir moch daear yn ystod cynnal yr arolygon
- Pysgod – nodir y wybodaeth ynglyn a lleoliad yr all-lif
- Ymlusgiaid – cytunir gyda CNC sef y cynhwysir manylion

y mesurau lliniaru mewn Datganiad Dull sydd angen ei amodi i lwyr foddhad yr awdurdod lleol gyda ymgynghoriad gyda CNC cyn cychwyn y gwaith

- Safleoedd dynodedig – nodir sylwadau ag asesiad ‘Penderfyniad o Effaith Tebygol Sylweddol’ mewn perthynas a’r tomenydd llechi newydd i’w creu ger Nant y Betws a’r effaith posib ar nodweddion Eog Safle Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfa.

Cadarnheir fod yr holl agweddau yn dderbyniol ag na fyddai’r datblygiad trwy ei reoli gyda amodau perthnasol yn debygol o gael effaith sylweddol ar nodweddion Afon Gwyrfa a Llyn Cwellyn SAC

Swyddog Coed:

Derbyniwyd arolwg coed cychwynnol ag fe drafodwyd y mater yn helaeth. Mae pryder wedi ei nodi ynglyn ag effaith y datblygiad ar goed hynafol o fewn safle Glynrhonwy sydd yn destun Gorchymyn Gwarchod Coed ffurfiol.

Dŵr Cymru:

Amodau a chyngor safonol ynglyn a draenio tir a diogelu’r rhwydwaith

Gwasanaeth Tân:

Dim sylw

Uned Gwarchod y Cyhoedd:

Awgrymir cynnwys cyfres o amodau caeth er mwyn gwarchod trigolion a busnesau lleol rhag adrawiad anerbyniol ag er mwyn gwarchod yr amgylchedd lleol. Oherwydd natur y datblygiad arfaethedig mae’r amodau a awgrymir yn dechnegol iawn ag yn gofyn am gytundeb pellach ynglyn a nifer o amrywiol agweddau, megis:

- Oriau gwaith/cyfnod adeiladu
- Sŵn
- Allyriadau llwch
- Monitro llygredd am gyfnod o 10 mlynedd
- Sustem rheoli llwch
- Safon aer
- Goleuo
- Ffrwydriadau
- Twnelu

Uned Hawliau Tramwy:

Mae’n fwriad gan y datblygwr, yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu, i wyro (dros dro) 5 hawl tramwy yn ogystal â rhan o’r lôn gyhoeddus sy’n mynd o Waunfawr i Lanberis dros Fwlch y Groes. Mae trafodaethau yn parhau rhwng y datblygwr a’r Awdurdod Priffyrdd yn hyn o beth a bydd angen cytuno ar union leoliadau y gwyradau hyn cyn i’r gwaith gychwyn.

Bydd angen gwyro un o’r pum hawl tramwy a effeithir gan y datblygiad yn *barhaol* ac awgrymir fod y gwriad hwn yn cael ei wneud o dan ddarpariaeth Adran 257, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae llinell y gwriad parhaol sydd wedi’i awgrymu gan y datblygwr yn dderbyniol i’r Adain Llwybrau **cyn belled â bod y llwybr newydd yn cael ei adeiladu i safon boddhaol**. Bydd hyn yn destun trafodaeth pellach gyda Quarry Battery. Er mwyn gwyro unrhyw lwybr cyhoeddus, mae gofyn cael “awdurdod” y Cyngor ac felly awgrymir fod yr hawl i wyro’r llwybr yn cael ei

glymu i'r caniatad cynllunio (os y rhoddir).

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybuddion o fewn ag yn ymylu â'r safle gan gynnwys ochr Glynrhonwy/Llanberis ag ochr Waunfawr. Yn ogystal, rhoddwyd rhybuddion yn y wasg leol, gwnaed hyn mewn perthynas a dau gyfnod o ymgynghori a gychwynnodd ar 13.11.12 a 19.06.13 ill dau. Gwybyddwyd trigolion cyfagos ar y ddau achlysur a gyrrwyd yr ail-ymgynghoriad i drigolion lleol ag eraill a ymatebodd i'r ymgynghoriad gwreiddiol gan gynnwys unigolion a grwpiau a ddangosodd ddiddordeb yn y bwriad gan gynnwys Cymdeithas Pysgotwyr Seiont Gwyrfai Llyfni, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Ramblers Association, FishLegal, Cyngor Dringwyr Prydain, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Clwb Mynydda Cymru ayyb.

Cynhaliwyd yr ail ymgynghoriad oherwydd diwygiadau a gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd, mae hyn yn unol a Rheol 19 o Reolaethau Asesiad Effaith Amgylcheddol 1999. Derbyniwyd sylwadau yn dilyn yr ail-ymgynghori, nifer yn ail adrodd yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol, rhoddwyd y sylw priodol i gynnwys y sylwadau materol.

Ymgynghorodd cwmni Quarry Battery yn lleol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol trwy gynnal arddangosfa/cyfarfodydd cyhoeddus a chyhoeddi a dosbarthu pamffledi ynglyn a'r bwriad i dai'r ardal. Yn ogystal, mae'r cwmni wedi bod yn trafod datblygiad arfaethedig ar y safle yma gyda'r awdurdod lleol ers cryn amser, mae barn wedi ei roi ynglyn ag agweddau o'r datblygiad a diwygiadau wedi eu cynnal yn dilyn argymhellion a roddwyd fel fod y cais a gyflwynwyd yn y ffurf a awgrymwyd.

Derbyniwyd nifer sylweddol o lythyrau / gohebiaeth yn gwrthwynebu'r cais yn wreiddiol ar sail:

- Pryder am effaith byr a hir dymor y datblygiad ar fwynderau'r ardal boed yn weledol, hanesyddol, amgylcheddol/colled o gynefinoedd
- Sut gaiff y trydan ei drosglwyddo o'r safle i Pentir/pryder am ddefnyddio peilonau
- Effaith ar y tirlun hanesyddol/gweledol/safleoedd wedi eu dynodi/gwarchod
- Effaith niweidiol ar fywyd gwyllt/ecoleg/rhywogaethau wedi gwarchod
- Datblygiad o'r maint yma angen penderfyniad ar lefel cenedlathol yn hytrach na lleol
- Effaith niweidiol ar diroedd agored/tir comin/rhwystro hawliau tramwy
- Colled o olion a nodweddion archaeolegol pwysig/chwareli hanesyddol yn ardal Cefn Du/Glynrhonwy
- Gwybodaeth camarweiniol/anghywir/anghyson
- Effaith niweidiol ar y Parc Cenedlaethol

- Llygredd – sŵn, llwch, golau, dirgryniad, ffrwydriadau
- Traffig cynyddol ar ffordd anaddas Cefn Du/effaith ar ardal Groeslon Waunfawr/dirywiad i'r ffordd lleol
- Effaith niweidiol ar dai cyfagos i Ffordd Cefn Du
- Cronfa cymunedol anigonol
- Perygl i ddefnyddwyr ffordd presennol gan gynnwys plant yn ardal Groeslon Waunfawr/ffordd Cefn Du
- Diffyg ymgynghoriaeth llawn
- Llifogydd
- Asesiadau am effaith ar yr amgylchedd yn anigonol
- Effaith ar bysgod/silfa yn Llyn Padarn, Llyn Cwellyn, Afon Seiont/Gwyrfai
- Effaith ar Torgoch Llyn Padarn oherwydd codi tymheredd/gwaith cysylltiedig/newid lefelau/ail-lenwi/safon y dŵr
- Diffyg arolwg pysgota
- Ymddangosiad rhywogaethau ymwithiol
- Diffyg mesurau lliniaru digonol
- Effaith niweidiol ar dwristiaeth/digwyddiadau megis Marathon Eryri
- Pryder am gynyddu traffig ar yr A4086 (ffordd Llanberis)
- Cronfeydd yn torri/difrodi
- Diffyg cydymffurfiaeth gyda polisiau mabwysiedig
- Diffyg cydymffurfiaeth gyda canllawiau a rheolau amgylcheddol gan gynnwys asesiad effaith amgylcheddol anghywir
- Y datblygiad wedi cael ei annog gan y cyngor
- Effaith ar ardaloedd a ddynodwyd/gwarchodwyd
- Bygythiad i statws yr ardal fel safle treftadaeth y byd
- Pryder am drefniadau is-adeiledd y safle/angen gwarchod buddiannau trigolion Ffordd Cefn Du/difrod i'r ffordd
- Diffyg ymgynghoriad cyhoeddus cyn ag yn ystod y cais
- Effaith niweidiol ar Ffordd Clegir
- Maint ddim yn gweddu o fewn yr amgylchedd lleol
- Newid ym malans ecolegol yr ardal
- Diffyg gwybodaeth am drefniadau
- Defnydd o Chwarel Fawr yn anerbyniol
- Diffyg elfen o berchnogaeth lleol fyddai o fudd i'r gymuned leol
- Math yma o gynhyrchu ynni ddim yn ddefnydd gorau o adnoddau
- Effaith niweidiol ar goed wedi eu gwarchod
- Tystiolaeth/gwybodaeth arbenigol wedi ei gyflwyno gan ymgynghorwyr amhrofiadol
- Pryder am rediad dŵr o'r safle ar dai yn ardal Clegir
- Lleoliad yn anerbyniol/colled o gynefinoedd/nodweddion hanesyddol a naturiol
- Llygru nentydd/afonydd/llynnoedd sydd wedi eu

- gwarchod
- Colled o adnoddau hamdden awyr agored
- Datblygiad blaenorol gorsaf Dinorwig wedi effeithio'n niweidiol ar Lyn Padarn, hyn yn debygol o ddigwydd eto
- Dim sicrwydd o waith i drigolion lleol
- Llygru nentydd/afonydd/llynnoedd sydd wedi eu gwarchod

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:

- Materion Iechyd a Diogelwch
- Dim gwerth am arian o ystyried yr allbwn a greuir
- Effaith ar diroedd a hawliau preifat
- Colled o ddringfeydd
- Mwy o niwed presennol gan ddringwyr
- Cefndir y datblygwr yn aneglur
- Effaith ar gyflenwadau dŵr preifat
- Gwaith clirio coedwig blaenorol wedi effeithio ar drigolion lleol yn barod
- Pryder am pwy fyddai datblygwyr y safle o'i werthu ymlaen
- Colled o safle sglefrio/beicio/dringo presennol
- Datblygiad hamdden megis sinema fyddai'n fuddiol
- Diffyg ymgynghori gyda perchnogion tir cyfagos
- Effaith ar werth coedwig cyfagos
- Sustemau'r cyngor ddim yn glir/hygyrch
- Amseru'r ymgynghoriad yn fwriadol dros y nadolig/lleihau cyfleon i bobl wrthwynebu
- Y cyngor/cynghorwyr yn cael eu llwgrwobrwyo

Derbyniwyd nifer o lythyrau / gohebiaeth yn cefnogi / rhoi sylwadau ar y cais ar sail:

- Egwyddor y datblygiad yn cael ei gefnogi/syniad da
- Prin fyddai'r niwed ar yr amgylchedd/fe'i warchodir
- Safle presennol Glynrhonwy yn hyll a blêr
- Cynllun Dinorwig wedi dangos fod effaith hir dymor yn cael ei waredu
- Math yma o ddatblygiad yn werth am arian
- Cefnogi datblygiadau cynaliadwy/cyfleon gwaith lleol
- Angen ail-ddatblygu safle Glynrhonwy oherwydd y buddsoddiad sydd eisioes wedi ei wneud yno
- Datblygiad er llês cenedlaethol gan wneud defnydd da o adnoddau
- Cyfraniad derbyniol i'r strategaeth ynni
- Angen penderfyniad lleol
- Cynyddu dwysedd grid cenedlaethol trwy ffyrdd cynaliadwy
- Gwrthwynebiadau gan leiafrif dros ddiddordeb

- cenedlaethol yn anerbyniol
- Defnydd da o safle diwydiannol sydd eisioes wedi ei ddatblygu

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

5.1 Egwyddor y datblygiad

5.1.1 Mae'r math yma o ddatblygiad yn amlwg angen lleoliad sydd yn cynnig amgylchiadau hanfodol ar ei gyfer gan gynnwys tirlun sydd yn cynnwys nodweddion ffisegol penodol fel yn yr achos yma sef:

- dau neu fwy o dyllau chwarel neu gronfeydd ble gellir pwmpio dŵr o leoliad isel i leoliad uchel o fewn pellter gymharol agos ag sydd o fewn pellter derbyniol i'r grid cenedlaethol.
- daeareg addas sydd yn cynnwys semau o athreiddedd angenrheidiol ag addas megis ffurfiant llechi Llanberis

5.1.2 Y materion cynllunio penodol sy'n ymwneud â'r datblygiad arfaethedig yma yw:

- Sensitifrwydd y tirlun – Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal Gwarchod y Tirwedd, Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig, Tiroedd Comin, Tiroedd Mynediad (fel a ddynodwyd o dan Deddf Cefngwlad a Hawliau Tramwy 2000), safle bywyd gwyllt.
- Yr effaith uniongyrchol ag an-uniongyrchol ar ardaloedd a warchodir megis Llyn Padarn, yn ogystal a rhywogaethau a warchodir megis y Torgoch
- Yr angen i dderbyn a chymeradwyo gwybodaeth pellach trwy amodau ffurfiol er mwyn monitro'r datblygiad yn nhermau'r effaith ar yr ardal/amgylchedd/ecoleg/tirlun lleol ag ar fwynderau lleol gan gynnwys effaith a threfniadau trafniadaeth, oriau gweithio, sŵn, llwch ayb
- Oblygiadau economaidd a buddiant i'r boblogaeth leol.
- Y potensial i osod mesurau ar gyfer lliniaru effaith hir dymor oherwydd cyfnod y gwaith yn ystod ag ar ôl cwblhau'r adeiladu a'r angen am waith adfer priodol i ardaloedd a effeithwyd.
- Yr angen am y datblygiad. Mae polisi C27 o'r Cynllun Unedol yn datgan fod rhaid i gynlluniau ynni adnewyddol gydymffurfio gyda cyfres o feini prawf penodol a phan yn briodol, cyflwyno Datganiad Amgylcheddol er mwyn cloriannu goblygiadau amgylcheddol y datblygiad yn llawn.
- Mae polisi C6 o'r Cynllun Unedol yn ymwneud yn benodol gyda safle Glynrhonwy. Mae'r cynllun yn cydnabod fod angen bod yn realistig ond yn hyblyg ar gyfer unrhyw ddatblygiad o'r safle yma ond y byddai'n rhaid cyd-fynd gyda amcanion penodol, sef:
 - datblygiadau fydd yn creu cyfleoedd cyflogaeth neu hamdden newydd safonol ar gyfer ardal Llanberis a thu hwnt
 - datblygiadau fydd yn creu cyfleoedd gwaith cynaliadwy gydol y flwyddyn er mwyn cwrdd ag anghenion penodol marchnad lafur Gwynedd
 - datblygiadau a fydd yn gwarchod diwylliant a Chymreictod yr ardal er budd y gymuned leol
 - datblygiadau o ran dyluniad, graddfa a natur fydd yn gwarchod amgylchedd naturiol eithradol yr ardal ynghyd a mwynderau'r trigolion lleol

5.1.3 Yn ogystal â'r cyfarwyddyd a gynhwysir yn y polisau yma, mae canllawiau datblygu pellach

ar gyfer safle Glynrhonwy ar gael mewn briff datblygu penodol. Mae'r cynnig ar gyfer y safle yn datgan: *Datblygiad cymysg sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth neu hamdden safonol er budd cymunedau Gwynedd. Dylid sicrhau datblygiad aml-ddefnydd, cyffrous, atyniadol a chynaliadwy, sydd yn gwarchod amgylchedd gweledol a naturiol arbennig yr ardal ac sydd yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y cynllun datblygu mabwysiedig ar gyfer y safle. Dylai hyn gyfrannu tuag at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol o fewn canolfan a dalgylch Llanberis, ynghyd â chymunedau eraill Gwynedd.*

- 5.2.4 Yn nhermau'r cais fel a gyflwynwyd, mae'r bwriad yn golygu creu dwy gronfa, un ar y lefel uchaf yn ardal Chwarel Fawr (CHF) fydd yn mesur oddeutu 510m o lêd (ar ei ran lletaf) a 25m o uchder gyda'r ail o fewn twll chwarel presennol yng Nglynrhonwy (GL) fydd yn mesur 215m o lêd (ar ei ran lletaf) a 15m o uchder. Defnyddir peiriant twnelu i greu'r cyswllt rhwng y ddau safle sydd yn golygu na fydd angen cloddio uwch ddaear ar gyfer yr elfen yma o'r datblygiad. Byddai'r pibelli tanddaearol gorffenedig i wasanaethu'r datblygiad yn mesur 4 m o lêd
- 5.2.5 Mae prif adeilad sydd ynghlwm a'r datblygiad arfaethedig i'w leoli ar safle a adnabyddir fel platfform 5 o fewn safle Glynrhonwy sef llecyn sydd eisioes wedi ei ddatblygu o dan ganiatad cynllunio blaenorol trwy gynnal gwaith lefelu tir a gosod seilwaith a gwasanaethau yn eu lle. Mae'r adeilad uwchlaw y ddaear i gynnwys ystafell beiriannau ag amrywiol offer, gweithdy, swyddfa ag ystafell reoli ayyb. Mae'r mwyafrif o 'ofod' a greuir i'w leoli o dan y ddaear gan gynnwys siafft, neuadd generadur/pwmp, neuadd tyrbein, pibelli i mewn ag allan a sustem ddraenio. Mae'r gorlifan a gorsaf bwmpio sydd ei angen ger Llyn Padarn i'w osod o dan y ddaear i ffwrdd o feysydd parcio presennol Y Glyn yn agos i ddŵr twfn y llyn.
- 5.2.6 Yn dilyn trafodaethau cychwynnol ynglyn a'r bwriad, ag er mwyn lleihau effaith andwyol ychwanegol ar ffordd Cefn Du ag yn benodol trigolion lleol ar hyd y ffordd ag yn îs am gyfeiriad Groeslon Waunfawr a thu hwnt, penderfynwyd y byddai creu tomenydd newydd yn ardal Chwarel Fawr/Cefn Du o'r gwastraff a ddeilliai o'r gwaith twnelu, yn aflonyddu llai ar fwynderau lleol oherwydd y lleihad mewn niferoedd o gerbydau fyddai ei angen i gludo'r gwastraff oddiar y safle. Mae'r tomenydd newydd i'w creu yn gyfochrog ag ynghlwm gyda tomenydd presennol. Fel y nodwyd eisioes, ag fel sydd yn ddisgwyliedig i gais o'r maint a chymhlethdodau cysylltiedig, mae'r datblygiad wedi esblygu ag addasu dros amser gan fod trafodaethau wedi awgrymu newidiadau, arolygon wedi golygu addasu ayyb. Mae'n wir i ddweud y bydd effaith ar diroedd agored/gwyrdd presennol, ond teimlir mai effaith tymor byr fyddai hyn a bod y gwaith mwyaf i'w gynnal oddimewn i diroedd sydd eisioes wedi gweld eu datblygu fel yng Nglynrhonwy ar gyfer defnydd diwydiannol diweddar neu yn hanesyddol yn safle Cefn Du ar gyfer y diwydiant llechi.
- 5.1.7 Byddai'r storfa neu 'compownd' adeiladu yn cael ei greu ar blatfform presennol o fewn safle Glynrhonwy ar gyfer adeiladu cronfa GL, tra bydd angen yr un peth ger cronfa CHF.
- 5.1.8 Mae mynedfa tuag at y safle, yn benodol i ochr Cefn Du, yn broblemus oherwydd natur cyfyngedig y rhwydwaith ffyrdd presennol a'r math o gerbydau tebygol fydd angen ymweld a'r safle. Cyflwynwyd asesiad trafnidiaeth fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol ble nodir yr ymchwil sydd wedi ei wneud ynglyn a'r elfen yma. Mae mynedfa bwriedig tuag at safle Cefn Du i fyny o'r briffordd A4085 trwy gyffordd bresennol ger Croes y waun, Waunfawr ac yna i fyny trwy Groeslon Waunfawr am Cefn Du. Mae'n amlwg y bydd angen gwella nifer o rannau presennol o'r ffyrdd hyn yn enwedig ffordd Cefn Du ei hun, mae hyn yn debygol o olygu lledu'r ffordd, darparu manau pasio a gwella gwyneb presennol y ffordd ei hun. Mi fydd y fynedfa i ochr Glynrhonwy trwy'r gyffordd bresennol gyda ffordd A4086 ar gyrion pentref Llanberis. Mae'n debygol y bydd angen mân newidiadau i'r gyffordd yma am gyfnod byr yn ystod y datblygiad, ond fe'i adnewyddir wedi cwblhau. Mae Ffordd Clegir yn haneru'r safle i bob pwrpas gan redeg o Lanberis tuag at Cwm y Glo/Llanrug. Nid oes unrhyw fwriad i

ddefnyddio'r ffordd yma yn ystod y datblygiad ar wahan i gyfnodau o'i chau pan fydd angen cynnal gwaith twnelu agos.

- 5.1.9 Mae prif elfen y bwriad o ddefnyddio'r tyllau sydd eisioes wedi eu creu ar ochr y mynydd yn golygu mai ardal fychan o dir nas datblygwyd erioed o'r blaen a ddefnyddir. Ystyrir fod y bwriad sydd yn defnyddio safle Glynrhonwy yn bennaf ar gyfer y datblygiad, yn gwneud defnydd da o dir a ddatblygwyd eisioes ag mae'n rhaid cofio hefyd fod Glynrhonwy wedi ei ddynodi ar gyfer ail-ddatblygiad heb gyfyngiad penodol ynglyn a'r math o ddiwydiant neu ddefnydd fyddai'n briodol. Mae'r datblygiad yn cynnwys elfen ble fyddai tomen llechi newydd yn cael ei chreu/ ychwanegu at domen bresennol, er hynny, mae gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i'r gwaith twneli yn cael ei ddefnyddio yn ogystal i greu waliau'r cronfeydd ag yn gyffredinol oddimewn i'r safle.
- 5.1.10 Yn ddibynnol ar ystyriaethau llawn a roddir i holl ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill ynghlwm a'r bwriad a'r math yma o ddatblygiad, ystyrir fod yr egwyddor o ddatblygiad yn dderbyniol ag yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal a gofynion polisiau A1, A3, C3, C5, C6 & D5 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

5.3 Mwynderau gweledol

- 5.2.1 Mae asesiad llawn wedi ei wneud ynglyn ag effaith gweladwy'r datblygiad arfaethedig ar y tirlun, yn benodol Tirlun Hanesyddol Eithriadol Dinorwig. Mae hyn wedi ei wneud ar ffurf asesiad ASIDOHL (Assessment of the Significance of Impact of Development on Historic Landscapes) yn dilyn ymgynghori cyn cyflwyno cais gyda Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd a Chyngor Cefngwlad Cymru (bellach yn CNC) fel sydd yn ofynnol ag yn unol a chanllawiau disgwylidig. Mae asesiad ASIDOHL wedi gwneud gwerthusiad llawn o effaith gweledol y datblygiad ar yr ardal o ddi-ddordeb hanesyddol, ardal gwarchod y tirlun a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r asesiad wedi defnyddio amrywiol leoliadau ar gyfer edrychiadau tuag at y safle gan gynnwys lluniau cyfrifiadur wedi eu creu yn 'dangos' y datblygiad gorffenedig yn ei ffurf terfynol oddimewn i'r safle ag oddimewn y tirlun ehangach. Mae'r adroddiad yn asesu effaith uniongyrchol ag an-uniongyrchol y datblygiad ar y tirlun o safbwynt eang yn ogystal a'r effaith yn lleol, ag yn awgrymu camau lliniaru er mwyn lleihau'r effaith. Diwygwyd yr asesiad yma yn dilyn ymgynghori'n ffurfiol gyda'r Cyngor Cefngwlad/Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd hyn ei angen er mwyn cadarnhau rhai agweddau penodol na gynhwyswyd yn yr adroddiad gwreiddiol.
- 5.2.2 Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth llawn i gynnwys dynodiad yr ardal ar sustem LANDMAP, ynddo mae yn cyfeirio ag yn nodi pwysigrwydd elfennau penodol gan gynnwys Gweledol/Synhwyrdd, Hanesyddol, Cynefinoedd, Daearegol, Diwylliannol. Mae'r elfennau yma i gyd yn cael eu cyfeirio atynt fel unai o werth uchel neu eithriadol.
- 5.2.3 Mae'r ystyriaeth a roddir i effaith arwyddocaol y datblygiad a'r ardrawiad ar fwynderau gweledol y tirwedd yn cael ei benderfynu trwy gyfuniad o faint yr effaith a sensitifrwydd gosodiad y tirwedd i unrhyw newid. Mae'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol ar dirlun safle'r cais sydd yn anochel oherwydd natur cais o'r math yma.
- 5.2.4 Mae sensitifrwydd y tirweddau dynodedig sydd yn amgylchynu'r safle wedi cael ei ystyried yn llawn. Mae pellter a maint y datblygiad yn ystyriaethau hanfodol gan fod edrychiadau pell o'r safle yn mynd i olygu na fyddai'r datblygiad yn hollol amlwg o ardaloedd ehangach gan wneud defnydd da o'r safle a defnydd o orffeniadau fyddai'n gweddu i'w leoliad.
- 5.2.5 Mae ardrawiad ag effaith y datblygiad ar faterion gweledol a'r tirlun, yn cael ei asesu yn nhermau'r effaith yn eang sef cyfuniad o'r gwaith datblygu oddimewn i'r safle, symudiadau, storio deunyddiau ag offer, colli elfennau presennol o fewn y tirwedd, yn arbennig ffurf y tirwedd ag edrychiadau o fewn ardal Cefn Du, ffurf presennol y tir a'r llystyfiant yn ystod

cyfnod y gwaith ag yn dilyn gwaith adfer. Mi fydd effaith ar y tirwedd yn cael ei leihau yn ychwanegol trwy gytundeb ynglyn a gwaith lliniaru ag adfer gan gynnwys cynllun tirlunio cadarn fyddai'n benodol yn gwarchod ardal y datblygiad amlycaf.

5.2.7 Mae ffurf y datblygiad a'r camau lliniaru sydd wedi eu nodi yn ymgais i osgoi, lleihau a digolledu'r effaith amgylcheddol parhaol o ganlyniad i'r gwaith, mae hyn yn cynnwys y bwriad bellach i dwnelu yn hytrach nag agor ffosydd a chladdu'r pibellau yn ogystal a'r camau canlynol:

- Defnyddio safleoedd sydd wedi eu datblygu eisioes ar gyfer agweddau parhaol o'r datblygiad megis codi'r prif adeilad ar lwyfan sydd eisioes wedi ei greu ar gyfer datblygiad diwydiannol ag sydd yn cael ei sgrinio gan bresenoldeb coed sylweddol oddiamgylch
- Defnyddio llechen lleol ar gyfer cladio adeiladau a defnydd o lechen yn gyffredinol pan fo'n briodol gan gynnwys adeiladu'r cronfeydd
- Cynllunio waliau'r cronfeydd fel eu bod yn cyfleu ag yn ymdoddi gyda graddfa a cyfuchlin y chwareli presennol a'r tirlun yn gyffredinol er mwyn cyfleu edrychiadau a ffurf presennol gan osgoi creu ymddangosiad rhy artiffisial
- Mae lleoliad y domen lechi newydd yn fwriadol ar lecyn ble fydd yn ymdoddi gyda tomenni presennol ag mae i'w chynllunio er mwyn annog tyfiant o gynefinoedd newydd naturiol er mwyn lleihau'r effaith gweledol, diogelu rhag erydu, ag annog ystod ehangach o fio-amrywiaeth
- Cedwir unrhyw lysdyfiant sydd wedi cytrefu yn naturiol o fewn y safle
- Ble'n ymarferol, gwynebir ffyrdd mynediad a chynnal gyda deunydd sydd yn gweddu yn weledol er mwyn iddynt ymdoddi gyda'r tirwedd
- Cedwir waliau carreg naturiol a'u gwella ble fo hynny'n briodol
- Os collir coed o ganlyniad i'r datblygiad, fe ail-blannir rhywogaeth o'r un math i'w digolledu
- Codir ffens oddiamgylch y cronfeydd er mwyn atal anifeiliaid rhag crwydro

5.2.7 Rhaid sicrhau y bydd gwaith adfer safle yn dilyn cwblhau datblygiad fel yma yn cael ei wneud gyda ystyriaeth i'r tirlun hanesyddol a bio-amrywiaeth presennol yr ardal. Rhaid sicrhau fod arbenigedd yn nhermau profiad o adfer y math yma o safle yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynnal y math o goed, llwyni a grug yn ogystal a gwair a blodau gwyllt sydd yn gynhenid i ardal y cais. Fe welir fod gwaith adfer y math yma o safle wedi ei wneud i safon uchel mewn ardaloedd eraill o'r sir, bydd rhaid cynnal y safon yma a sicrhau y bydd cytundeb lawn ar y math o fesurau y cymerir.

5.2.8 Bwriad unrhyw raglen adfer yw annog adferiad tir trwy broses mor naturiol a phosib yn dilyn gwaith o'r math yma. Mae rhannau o'r safle fel y nodwyd eisioes wedi adfer yn naturiol oherwydd cyfnod hir o lonyddwch, anogir ystyriaeth i'r ffurf yma wrth lunio rhaglen gwaith adfer priodol ar gyfer y safle. Bydd llwyddiant cynllun fel yma yn ddibynnol ar fonitro a chydweithrediad cyson a'i fod yn cael ei gydlyn fel strategaeth ar gyfer y safle gyfan.

5.2.9 Mae canlyniad effaith y datblygiad ar dirlun hanesyddol Dinorwig wedi cael ei asesu gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd/ Cyfoeth Naturiol Cymru fel effaith isel, er mae'n amlwg y bydd yr effaith ar Glynrhonwy yn sylweddol. Er hynny, mae gwaith blaenorol eisioes wedi ei gynnal o fewn y safle yma gan adael safle sydd yn amlwg wedi ei drawsnewid i raddau ers ei ddefnydd fel chwarel weithredol. Mae'r colledion o fewn Chwarel Glynrhonwy yn cael ei lliniaru trwy gynnwys amod archaeolegol ffurfiol.

5.2.10 Mewn ymateb i'r ymgynhoriad ynglyn a'r datblygiad arfaethedig hwn, ni wrthwynebodd Parc Cenedlaethol Eryri i'r bwriad oherwydd ni chredir y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r Parc oherwydd lleoliad a natur y datblygiad.

- 5.2.11 Fe ystyrir felly fod y cynllun fel a gyflwynwyd gyda'r bwriad i adfer safleoedd ynghyd a rhestr o amodau fel a awgrymwyd, yn ddigonol i liniaru effaith y datblygiad ar fwynderau gwledol a'r tirwedd lleol ag felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau A1, B7, B10, B12, B14, B23, B27 o'r Cynllun Unedol.

5.3 Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.3.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda cyrff perthnasol fel Asiantaeth yr Amgylchedd (cyn ag ar ôl creu Cyfoeth Naturiol Cymru) ag Uned Gwarchod y Cyhoedd yr Awdurdod. Cydnabyddir fod y cais yma yn un dyrys a chymhleth gan nad yw yn gais sydd yn gyffredin o ran y math o ddatblygiad a fwriedir a'i faint. Er fod peth pryder wedi ei amlygu ar adegau i gynnwys y wybodaeth a gyflwynwyd yn wreiddiol ag effaith y datblygiad ar faterion perthnasol, diwygwyd a diweddarwyd y wybodaeth gan yr ymgeisydd ag o ganlyniad, awgrymir amodau perthnasol a gofynir am drwyddedau priodol cyn gellir cychwyn ar y gwaith.
- 5.3.2 Rhaid cydnabod trwy ddynodi'r safle fel safle ail-ddatblygu yn y Cynllun Unedol, fod datblygiad ar y safle yn ddisgwyliedig ag yn ffurfio rhan o strategaeth hir dymor ar gyfer creu datblygiad sy'n creu cyfleon cyflogaeth safonol er budd cymunedau Gwynedd.
- 5.3.3 Mae nifer o faterion a all amlygu ei hun yn ystod cyfnod adeiladu datblygiad o'r math a maint yma yn cael eu rheoli trwy reolaethau a chan adrannau eraill y cyngor ag asiantaethau allanol. Ni fyddai'r awdurdod cynllunio lleol pe byddai caniatad yn cael ei roi, yn rheoli pob agwedd o'r datblygiad ond trwy gyflwyno a chytuno ar fanylion amodau caeth, teimlir y byddai materion megis rheoli sŵn, llygredd, symudiadau cerbydau ayyb yn cael eu diogelu ag na fyddai ardrawiad gormodol hir dymor ar fwynderau trigolion lleol a'r gymuned yn gyffredinol o wneud hynny.
- 5.3.4 Mae gan yr uned Gwarchod y Cyhoedd lleol gyfrifoldeb dros faterion megis sŵn, golau ag effeithiau dirgryniad ayyb, fe fydd rhaid i unrhyw ddatblygwr gydymffurfio gyda cyfyngiadau fel a awgrymir yng nghanllawiau presennol Llywodraeth Cymru ynglyn a'r agweddau yma a chynnal monitro cyson o'r sefyllfa er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r angen i gytuno yn ffurfiol gyda'r uned Drafnidiaeth o dan ofynion Deddf Priffyrdd hefyd yn golygu fod elfen ychwanegol o reolaeth ar gael yn ymwneud a materion fyddai'n effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a defnyddwyr y ffyrdd yma, ni wrthwynebir y cais ar sail y materion hyn ond fe fydd rhaid cynnal arolygon ag asesiadau cyson er mwyn sicrhau nad oes ardrawiad yn digwydd o ganlyniad i'r symudiadau hyn.
- 5.3.5 Er nad oes tai preswyl yn union gyfochrog a safle'r cais boed o ochr Glynrhonwy neu Cefn Du, mae'r datblygiad yma yn anorfod yn mynd i effeithio yn achlysurol ar fwynderau preswyl sydd tu hwnt i ffiniau cyfochrog safle. Lleolir tai/adeiladau ar wasgar o fewn ardal Clegir a ger priffordd yr A4086 ar gyrion Llanberis, ceir hefyd nifer o dai yn ardal Groeslon Waunfawr ag ar hyd ag oddiar Ffordd Cefn Du. Mae'r effaith ar breswylwyr y tai hyn yn debygol o fod yn effaith tymor byr i raddau oherwydd mai ymyrraeth yn ystod y cyfnod adeiladu sydd yn fwyaf tebygol o ddigwydd megis symudiadau cerbydau trwm, sŵn, golau ayyb. Rhaid nodi hefyd fod potensial i dai yn ardaloedd Fachwen a Dinorwig hefyd gael eu effeithio yn weledol oherwydd eu bod yn uniongyrchol gyferbyn â safle Glynrhonwy ar draws y dyffryn.
- 5.3.6 Trwy osod yr amodau cynllunio caeth a chynhwysfawr fel yr awgrymir gan Uned Gwarchod y Cyhoedd a'r Uned Trafnidiaeth a thrwy gydymffurfio gyda gofynion rheolaethau perthnasol eraill er mwyn sicrhau fod materion yn ymwneud a sŵn, dirgryniadau, symudiadau cerbydau ayyb yn cael eu rheoli a monitro, ni ystyrir y byddai effaith niweidiol gormodol hir dymor ar fwynderau trigolion lleol. Fe ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau A1, A3 a B23, B33 a B34.

5.4 Materion trafndiaeth a mynediad

- 5.4.4 Mae'r datblygiad arfaethedig yn anorfod ar adegau am gael effaith ar drafndiaeth, y rhwydwaith ffyrdd lleol a materion yn ymwneud a mynediad oherwydd yr angen am gerbydau ag offer sylweddol i gynnal y gwaith a'r niferoedd yn nhermau gweithlu fydd ei angen yn ystod cyfnod yr adeiladu. Mi fyddai'r datblygiad hefyd yn amharu ar y gallu i ddefnyddio llwybrau a hawliau tramwy presennol. Cynhaliwyd asesiad manwl ar ffurf asesiad Trafndiaeth ffurfiol yn ystod cyfnod adeiladu a gweithredu ar safleoedd CHF a GL, mesurwyd ag aseswyd nifer y symudiadau yn erbyn lefelau traffig presennol gyda sylw hefyd yn cael ei roi i ffurf llwybrau cerbydau hanfodol. Canfuwyd o ganlyniad i'r asesiadau y byddai'r rhwydwaith ffyrdd lleol yn gallu ymdopi gyda'r holl symudiadau heb gyfaddawdu gormod ar symudiadau presennol.
- 5.4.5 Er hynny, mae yn anorfod fod amharu achlysurol yn mynd i ddigwydd ag fe gydnabyddir hynny. Er mwyn sicrhau fod yr effaith hyn yn cael ei gadw i lefel dderbyniol mae bwriad i lunio Cynllun Rheoli Trafndiaeth a Chynllun Teithio. Mae'r cynlluniau yma i'w cyflwyno yn ffurfiol er mwyn derbyn ei gymeradwyaeth ag y byddant yn egluro sut fydd traffig yn cael ei reoli, sut mae oedi yn cael ei reoli, sut y rheolir symudiadau cerbydau, beicwyr a cherddwyr os bydd cau ffyrdd neu wyro achlysurol.
- 5.4.3 Oherwydd natur a ffurf adeiledig tai ar hyd Ffordd Cefn Du, mae pryder amlwg wedi ei godi gan drigolion y tai yma (ag yn gyffredinol yn ardal Cefn Du a Groeslon Waunfawr) am effaith symudiadau cerbydau trwm ar eu tai ag ar eu mwynderau yn gyffredinol. Mae camau posib wedi eu crybwyll gan y datblygwr mewn ymateb i'r pryderon hyn gan gynnwys cynnal arolygon o'r tai cyn ag ar ôl cwblhau'r datblygiad yn ogystal a gwella ansawdd Ffordd Cefn Du ei hun. Mae hyn yn cael ei ddisgrifio o fewn y Datganiad Cynllunio a gyflwynwyd gyda chynnig i greu cronfa fydd yn mynd i'r afael a gwaith sydd yn anigonol neu is-safonol (mae hyn yn fater a threfniant sifil rhwng y datblygwyr a thrigolion lleol). Yn ogystal, mae trefniant ffurfiol ei angen trwy gytundeb o dan rhan 278 o'r Ddeddf Priffyrdd i gynnal gwaith i'r rhwydwaith ffyrdd lleol ag i sicrhau fod safon derbyniol terfynol i'r ffyrdd a ddefnyddir. Mae'r bwriad yn effeithio ar y ffordd di-ddosbarth ar draws Cefn Du sef ffordd sydd yn hanesyddol wedi cysylltu Waunfawr a Llanberis, cyn cychwyn ar unrhyw ran o'r datblygiad, rhaid i'r ffordd yma gael ei atal/gwyro yn ffurfiol o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r ffordd i'w gwyro cryn bellter o'i chwrs presennol yn ystod y cyfnod adeiladu ond o gwblhau'r gwaith, mi fydd y gwyriad yn rhesymol gan ddilyn yn agos i linell bresennol y ffordd.
- 5.4.4 Ystyrir fod lle digonol oddimewn safle Glynrhonwy i gadw cerbydau ag y bydd trefniadau yn cael eu rhoi mewn lle i ddarparu yr un peth ar ochr Cefn Du o'r datblygiad. Er fod natur y datblygiad a'r tirwedd yn debygol o greu problemau o ran hygyrchedd i rai gyda thrafferthion symud, mi fyddai'r elfennau fyddai yn hygyrch yn gorfod cydymffurfio gyda gofynion mynediad i bawb, gan sicrhau mynediad i bawb. Trwy wneud hyn a thrwy drefniadau ychwanegol yn ymwneud a materion priffyrdd fydd i'w cytuno arnynt yn ffurfiol trwy ofynion amodau caeth a gofynion Deddf a Rheoliadau Priffyrdd, ystyrir y bydd gofynion Polisiau CH30, CH33 a CH36 yn cael eu bodloni.
- 5.4.5 Mae'r datblygiad yn mynd i gael effaith uniongyrchol ar hawliau tramwy o fewn ardaloedd penodol o'r safle, yn bennaf, o fewn ardal CHF/Cefn Du. Mae uned hawliau tramwy'r awdurdod wedi cynnal trafodaethau gyda'r datblygwr yn dilyn cynnig i wyro llwybrau o fewn ardal y datblygiad dros dro ag yn barhaol. Yn ogystal, mae tir o fewn ardal Chwarel Fawr wedi ei ddynodi fel tir gyda hawl mynediad o dan hawliau Deddf Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad 2000 (CRoW) gan ei fod wedi ei gategoreiddio fel tir comin cofrestredig. Mae gan y cyhoedd hawl cyffredinol i gerdded ar safleoedd fel hyn, a gan fod tir CRoW yn lledaenu ar draws oddeutu 55% o dir safle'r datblygiad arfaethedig, mae angen sicrhau fod

cytundeb clir o dan y ddeddfwriaeth perthnasol ynglyn a threfniadau hawliau tramwy dros dro a pharhaol ar draws y safle.

- 5.4.6 Mae peth tir sydd yn cael ei ddefnyddio i bwrpas pori yn debygol o gael ei golli, mae colled o diroedd gwyrdd a thiroedd nodweddiadol fynyddig fel y gwelir yn ardal Cefn Du yn anffodus o ystyried y cyfnod hir o ddefnydd a'r ail-sefydlu o gynefinoedd a ddigwyddodd yn dilyn darford y chwareli llechi. Er hynny, ni nodir yn y sylwadau a dderbyniwyd gan y cyrff perthnasol fod gwrthwynebiad i golli'r tiroedd hyn, ag fel y nodwyd eisioes, bydd unrhyw golled o goed er enghraifft, yn cael eu lliniaru trwy ail-blannu a thirlunio yn gyffredinol.
- 5.4.7 Nodir yma fod rhan o'r safle oddiamgylch ardal Chwarel Fawr, o fewn tir sydd wedi ei ddynodi fel Tir Comin ffurfiol, mae hyn yn golygu y bydd unrhyw waith adeiladu o fewn y tir yma angen caniatad ar wahan gan y Gweinidogion Cymreig o dan Deddf Cyfraith Eiddo 1925.
- 5.4.8 Ystyrir fod y bwriad trwy ei reoli ymhellach trwy ofynion rheolaethau ag amodau perthnasol, yn dderbyniol ag felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau A3, CH22, CH25 a CH29 o'r Cynllun Unedol.

5.6 Materion Bioamrywiaeth

- 5.5.1 Mae lleoliad y datblygiad arfaethedig yma yn cynnwys safleoedd pwysig yn nhermau bio-amrywiaeth, rhywogaethau wedi eu gwarchod, coed sydd yn destun Gorchymyn Gwarchod Coed, ecoleg yr ardal yn gyffredinol a safleoedd penodol sydd iddynt statws wedi eu gwarchod megis Llyn Padarn ag yn an-uniongyrchol, Afon Gwyrfai. Mae'r datblygiad wedi ei asesu yn llawn yn nhermau effaith posib ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Llyn Padarn a Safle Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfai Llyn Cwellyn. Mae rhinweddau hynod bwysig i'r adaloedd hyn, y prif nodweddion yw presenoldeb y Torgoch yn Llyn Padarn ag Eog yn Afon Gwyrfai. Yn amlwg hefyd oddimewn safle eang fel yma a chyfnod hir o ddim defnydd, yw ail-ymddangosiad planhigion a bywyd gwyllt o fewn ardaloedd y chwareli, coed wedi eu gwarchod, rhywogaethau wedi eu gwarchod yn gwneud defnydd o ardaloedd gwag ayyb. O fewn tirlun uchel oddiamgylch ardal Chwarel Fawr, gwelir nodweddion arferol i'r math yma o diroedd gan gynnwys presenoldeb planhigion megis grug, glaswelltau ayyb.
- 5.5.2 Mae Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod cymwys, wedi cynnal 'Penderfyniad o Effaith Tebygol Sylweddol' er mwyn ystyried sgil effaith y datblygiad ar eog yn defnyddio afon Nant y Betws ag Afon Gwyrfai, o ganlyniad canfuwyd trwy gynnwys amodau diogelu a monitro cyson, na fyddai effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle a warchodir.
- 5.5.3 Mae'r Asesiad Effaith Amgylcheddol yn cynnwys arolygon ag asesiadau ar gyfer ystod eang o fywyd gwyllt a llysdyfiant ag fe ystyrir fod y wybodaeth a gyflwynwyd i safon derbyniol. Gosodir amodau fel yr awgrymwyd gan CNC (yn wreiddiol fe'u rhoddwyd ar wahan gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefngwlad Cymru) i dderbyn a chymeradwyo gwaith pellach a derbyn asesiadau pellach a nodir y bydd angen cynnal gwaith adfer cynhwysfawr wedi cwblhau'r gwaith er llês nid yn unig edrychiadau ag effaith ar y tirlun ond hefyd er mwyn adfer cynefinoedd yn ogystal.
- 5.5.4 Mae CNC ag Uned Bio-amrywiaeth Cyngor Gwynedd yn awgrymu gosod amodau caeth er mwyn gwarchod y materion perthnasol yma ac maent o'r farn, trwy wneud hyn, nad oes gwrthwynebiad i egwyddor y datblygiad cyn belled ag y gellid dangos trwy fanylion a monitro pellach na fyddai effaith niweidiol sylweddol ag hir dymor ar ardaloedd a rhywogaethau wedi eu gwarchod gan gynnwys Llyn Padarn ag Afon Gwyrfai.

- 5.5.6 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau eu bod yn cytuno gyda casgliad y ‘Penderfyniad o Effaith Tebygol Sylweddol’ sef nad yw’r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn.
- 5.5.7 Fe gredir felly fod ystyriaeth llawn wedi ei roi i’r holl wybodaeth a dderbyniwyd, sylwadau a dderbyniwyd gan ymgynghorwyr statudol a sylwadau gwrthwynebwyd a thrwy osod amodau (gan gynnwys gofyn am a chymeradwyo “Construction Environmental Management Plan”) fel ag awgrymwyd mae’n bosib sicrhau fod gwarchodaeth llawn yn cael ei gynnal a chytundeb clir yn cael ei wireddu mewn perthynas a’r materion hyn, trwy wneud hynny, credir fod gofynion polisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn cael eu bodloni yn ogytal a pholisiau A1, A3, B15, B16, B17, B20 o’r Cynllun Unedol.

5.6 Materion Archaeolegol

- 5.6.1 Y gwaith adeiladu ei hun yn amlwg fydd yn cael yr effaith mwyaf ar leoliadau o ddiddordeb Archaeolegol, oherwydd hynny, cynhaliwyd arolwg manwl o’r safleoedd hyn ar ffurf Asesiad Archaeolegol ffurfiol. Y prif ardaloedd sy’n cael eu effeithio fydd ardaloedd Chwarel Fawr a Glynrhonwy, cadarnhawyd gan Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd y byddai’r effaith yma yn sylweddol ond oherwydd fod arwyddocâd yr effaith ar y safleoedd hyn yn amlwg ni fyddai angen asesiad pellach cyn caniatáu’r cais cynllunio (mae hyn yn unol a chyfarwyddyd yng nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96).
- 5.6.4 Nid yw gwir effaith y datblygiad ar olion archaeolegol yn wybyddus oherwydd fod posibilrwydd y bydd olion pellach fel y datblygir y safleoedd hyn, fe ofynir felly am raglen gwaith trylwyr cyn cychwyn ar y gwaith i adnabod a chofnodi olion a lliniaru effaith y datblygiad ar yr ardal o ddiddordeb.
- 5.6.5 Gellir rheoli’r elfen yma trwy amod ffurfiol fel yr awgrymwyd gan y Gwasanaeth Archaeolegol a theimlir trwy wneud hyn y byddai gofynion polisi B7 yn cael ei fodloni.

5.7 Diogelwch cyhoeddus ac atal trosedd

- 5.7.1 Mae mynediad presennol i mewn i’r safle wedi ei gyfyngu am resymau amlwg, sef mater o ddiogelwch a diogelu tiroedd preifat. Mae lleoliadau megis chwareli llechi yn hynod o beryglus ag er fod ymgais wedi ei wneud gan y Cyngor i ddiogelu safleoedd mae achosion o ‘dorri i mewn’ wedi bod ar adegau gyda defnydd hamdden megis dringo, sglefrio, beicio ayyb yn cael ei gynnal mewn amrywiol rannau o’r safle- Glynrhonwy yn bennaf.
- 5.7.3 Yn ystod cyfnod yr adeiladu, bwriedir diogelu safleoedd y datblygir a storio offer/peiriannau trwy osod ffens ddiogelwch bwrpasol tra fydd golau diogelwch cyfeiriadol wedi ei leoli mewn mannau allweddol.

5.8 Materion cynaliadwyedd

- 5.8.1 Mae cyrraedd safonau adeiladu penodol ynglyn a materion cynaliadwy yn hanfodol ag yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth cyfredol a pherthnasol. Mae’n arferol gosod amodau er mwyn cyrraedd y safonau priodol yma ag fe reolir hyn ymhellach trwy drefn Rheolaeth Adeiladu, o wneud hyn, ystyrir y byddai gofynion polisi C7 yn cael ei fodloni.
- 5.8.6 Mae cynhyrchu ynni ym Mhrydain ar hyn o bryd yn ddibynnol yn bennaf ar ddulliau sy’n defnyddio tanwydd ffosil. Mae cydnabyddiaeth i’r angen o symud i ffwrdd o’r dull yma o gynhyrchu ynni a buddsoddi mewn datblygiadau mwy cynaliadwy ag adnewyddadwy.
- 5.8.7 Mae polisiau a chyfarwyddyd lleol a chenedlaethol yn annog datblygiadau sydd yn gwyro i’r cyfeiriad yma, ond mae lleoli’r datblygiadau hyn yn gallu bod yn gynhennus a phroblemus ar

adegau. Yn yr achos yma, mae angen lleoliad neilltuol a phenodol ar gyfer datblygiad o'r math yma, yng Nglynrhonwy gwelir fod yr amgylchiadau yn addas ar gyfer y cynllun tra hefyd yn gwneud defnydd priodol (yn rhannol) o safle sydd wedi ei ddatblygu eisioes.

- 5.8.8 Mae datblygiadau ynni adnewyddol amrywiol eu natur yn cael eu gwireddu yn lleol a chenedlaethol. Yn yr achos yma, fe welir honiadau gan aelodau o'r cyhoedd nad dyma'r ffordd fwyaf cynaliadwy o greu trydan (sef yr elfen sydd yn defnyddio trydan pan yn pwmpio dŵr o'r gronfa isaf i'r uchaf). Mae angen ystod eang o ddatblygiadau ynni adnewyddol sydd yn eu cyfanrwydd yn ategu gyda'u gilydd at ofynnion cenedlaethol i wyro oddiwrth y drefn draddodiadol o greu trydan. Er mai cymharol fychan fydd y cyfraniad a ddeilliai o'r ffynhonnell yma, mae yn gyfraniad pwysig tuag at y nod o gynhyrchu ynni trwy ffyrdd adnewyddol. Fe welir fod datblygiad (er ar raddfa sylweddol fwy) pwysig Dinorwig sydd yn llythrennol ar draws y dyffryn, wedi llwyddo i gynhyrchu ynni adnewyddol yn y ffurf yma ag yn ymddangos yn ffynnu fel safle o wneud hynny.
- 5.8.9 Ystyrir fod yr amgylchiadau yma yn gweddu gyda gofynion y datblygiad, mae'r math a ffurf o ddatblygiad a fwriedir yn bwysig tuag at gyrraedd targedau cenedlaethol sydd yn eu tro yn cyfrannu at dargedau rhyngwladol. Mae cyfraniad, er mor 'fychan' yw o ran yr hyn a gynhyrchir o fudd eang ag yn bodloni gofynion canllawiau a chyfarwyddyd cenedlaethol a gofynion polisi C27 o'r Cynllun Unedol.

5.9 Hanes cynllunio perthnasol

- 5.9.1 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r safle yma wedi cael ei ystyried ers cryn amser fel safle ar gyfer datblygiadau sylweddol i'r ardal, yn bennaf mewn cysylltiad a defnyddiau hamdden/twristaidd. Ni benderfynwyd yn ffurfiol ar y datblygiadau hyn trwy'r drefn cynllunio.
- 5.9.2 Y datblygiad amlycaf a welir ar y safle sydd yn destun hanes cynllunio yw safle eang ffatri Siemens (neu Euro DPC fel roedd yn flaenorol). Ni dderbyniwyd sylwadau gan y cwmni ag felly ni ystyrir fod pryder yn nhermau effaith y datblygiad arfaethedig yma ar y gwaith a'r safle.
- 5.9.3 Mae'r safleoedd a ddisgrifir fel 'llwyfannau' sydd eisioes wedi eu rhannol ddatblygu o fewn safle Glynrhonwy, yn parhau ar gael i ddarpar ddefnyddwyr ag ni theimlir y byddai'r datblygiad yma yn amharu yn ormodol ar ddatblygu'r safleoedd hyn i'r dyfodol.

5.10 Yr economi

- 5.10.1 Mae datblygu'r safle yma yn y ffurf fel a ddangosir yn golygu y bydd cyfleon creu gwaith i'r tymor byr a hir dymor ar gael. Yn amlwg, y gobaith yw mai trigolion lleol fydd yn elwa o'r cyfleon hyn yn ystod y cyfnod adeiladu ag yn y tymor hir pan fydd y safle yn weithredol. Er hynny, ni ellir sicrhau a mynnu fod hyn yn cael ei orfodi oherwydd deddfwriaeth Ewropeaidd sydd yn caniatáu i weithwyr o fewn y gymuned Ewropeaidd allu gweithio o fewn ffiniau unrhyw un o'u cyd-aelodau.
- 5.11.2 Oherwydd maint y datblygiad a phwysigrwydd datblygu'r safle sydd wedi ei ddynodi fel Safle Datblygu Strategol er budd cymunedau Gwynedd, y gobaith yw y bydd y boblogaeth lleol yn elwa o'r datblygiad ag y byddai cyfleon creu gwaith parhaol yn hytrach na thymhorol o fudd i gadw unigolion ifanc lleol yn yr ardal er llês hir dymor cymunedau lleol a'r iaith Gymraeg.

- 5.11.3 Ni ystyrir y byddai caniatâu'r datblygiad yma yn amharu ar agweddau megis twristiaeth ag edrychiadau atyniadol yr ardal. Ni wrthwynebwyd y cais gan y Parc Cenedlaethol Eryri yn nhermau effaith ar fwynderau'r Parc. Fel fyddai'n ddisgwyliedig ar adegau yn ystod cyfnod adeiladu cynllun o'r maint yma, fe fydd adegau ble fydd tarddiad ar y tirlun lleol o safbwyntiau agos ag yn ehangach, ond teimlir mai byr dymor fydd yr effaith hyn. Gwelir safle Gorsaf Dinorwig a sut mae wedi ymdoddi i mewn i'w leoliad ag bellach yn ffurfio rhan o'r tirlun (i nifer, nid yw cronfa Marchlyn yn amlwg oherwydd ei ffurf ag ail-sefydliad o gynefinoedd naturiol). Ni fydd y cyfnod yma yn ddelfrydol yn nhermau effaith gweledol ar yr ardal hynod yma, ond o'i gwblhau (a wneir yn unol a gofynion amodau caeth), y gobaith yw y bydd yn gweddu i'w ardal o ran edrychiadau a'r gallu o bosib i gael ei hybu fel atyniad ychwanegol i'r ardal fel y gwelir yn achos Gorsaf Dinorwig.
- 5.11.4 Ni ystyrir fod y sylwadau a wnaed gan y cyhoedd mewn perthynas a cholli adnoddau hamdden presennol yn berthnasol oherwydd mai tiroedd preifat yw nifer o'r safleoedd a ddefnyddwyd ag felly trwy dresmasu mae unigolion wedi cael mynediad a gwneud defnydd o'r safleoedd hyn. Ni ystyrir felly fod colled o adnoddau hamdden lleol o ganiatâu'r cais yma.
- 5.11.5 Ystyrir y byddai buddiant o gymeradwyo'r datblygiad hwn yn lleol ag y byddai o'r herwydd yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau A2, A3 a C6.

5.12 Materion llifogydd

- 5.11.4 Mae angen ystyried mwy nag un agwedd yn ymwneud a'r mater o 'lifogydd' yn yr achos yma sef datblygiad gyda'r potensial o greu llifogydd yn uniongyrchol ag an-uniongyrchol ag effaith cyffredinol o ganiatâu'r datblygiad ar faterion cysylltiol megis cyflenwadau dŵr, dŵr gwyneb a thablau dŵr presennol yn yr ardal.
- 5.11.5 Mae asesiadau trylwyr wedi eu cynnal a'u cyhoeddi ar ffurf Asesiadau Canlyniadau Llifogydd ag Asesiad Bylchu Argae fel rhan o'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais. Mae'r wybodaeth yma sydd yn cyfeirio at y materion perthnasol fel a nodir uchod, wedi cael ei asesu gan yr ymgynghorwyr perthnasol megis Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn datgan y gellir rheoli materion fel yma trwy amodau sydd yn gwarchod buddiannau trigolion lleol a'r ardal yn gyffredinol.
- 5.11.6 Yn gryno, maent yn datgan:
- Y perygl mwyaf, a mwyaf sylweddol, a gysylltir â'r cynllun yw bylchu argae. Daw cynllun manwl unrhyw gronfa fawr newydd tan Ddeddf Cronfeydd 1975. Rhaid i gynllunio ac adeiladu'r fath gronfeydd fod â Pheiriannydd Adeiladu o dan y 'Rhestr Holl Baneli'.
 - Os adeiledir argae newydd o dan y Ddeddf, nid yw hynny'n golygu nas bylchir. Mae perygl cynhenid wastad yn gysylltiedig â'r fath argaeau. Oherwydd gofynion y DC, mae'n annhebyg y bylchir yr argae.
 - Cyfeiriwn ni chi at yr asesiad bylchiad yn rhan o'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd, a chynghorwn y dylid ceisio cyfraniad eich Cynllunwyr Argyfyngol parthed yr agwedd hon.
 - Rhaid i'r cynllun manwl sicrhau bod leinin ac is-ddraeniad y cronfeydd yn addas, er mwyn sicrhau nad yw holltau a gosodiadau'r man yn caniatáu llwybrau llif annerbyniol o'r cronfeydd.
 - Mae'r cwt pwmpio i'w godi yn y parth perygl llifogydd nesaf at Lyn Padarn. Argymhellir camau lliniaru er mwyn cyfyngu effaith llifogydd. Dylid darparu gofod rhydd ychwanegol, uwchlaw'r lefelau llifogydd amcangyfrifedig, ynghyd â chynlluniau llifogydd cytunedig.
 - Bydd angen rhagor o ymchwiliadau ynghylch llifau is-ddaearyl adeg y camau cynllunio manwl.
 - Parthed rheoli dŵr wyneb: Ni fu unrhyw ymchwil tir, hyd yn hyn, er mwyn penderfynu ymdreiddiad ar gyfer rheoli dyfroedd wyneb. Ni ddylai trefniadau dŵr wyneb gynyddu perygl llifogydd trwy orlwytho dyfrffosydd derbyn ym manau eraill. Bydd angen oedi llif er mwyn

- rheoli cyfraddau gollwng, a bydd angen eu cytuno.
- Rhaid cytuno ar unrhyw ollyngiadau o'r cronfeydd.

5.11.4 Cesglir felly fod y gwaith fel y'i cyflwynwyd, wedi ymchwilio i bob ffynhonnell o berygl llifogydd angenrheidiol ar gyfer y cam cynllunio hwn sy'n gysylltiedig â'r cais cynllunio presennol. Bydd angen trwydded dynnu pellach ar gyfer unrhyw dyniad fydd yn fwy na 20 medr ciwbig y diwrnod, golyga hyn y bydd angen trwydded dynnu ar gyfer y tyniad sy'n llenwi'r gronfa i ddechrau ag mae'n debygol y bydd angen cytuno ar amseriad gollyngiadau o GL i Lyn Padarn, gan ddibynnu ar faint o ddŵr sydd o dan ystyriaeth. O ystyried felly nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad yn ddibynnol ar gyflwyno a chytuno ar fesurau pellach trwy amodau ffurfiol, credir fod y bwriad yn dderbyniol ag yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau B32 a C29.

5.12 Materion isadeiledd

5.12.1 Yn nhermau safle Glynrhonwy, mae gwaith sydd eisioes wedi ei gynnal wedi darparu llwyfannau pwrpasol gyda'r bwriad o greu cyfleon cyflogaeth. Mae'r gwaith yma wedi ei ariannu yn gyfangwbl trwy raglen waith Strategaeth Môn Menai sef prosiect wedi ei lunio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer annog datblygiadau a buddsoddiadau ar draws ardal eang o Ogledd Gorllewin Cymru. Mae'r safle yn cynnwys rhwydwaith o ffyrdd safonol, systemau draenio, cyflenwad trydan (sydd wedi ei uwchraddio yn ddiweddar) ayyb.

5.12.2 Un pryder cyson sydd wedi ei godi yn y sylwadau/gwrthwynebiadau a dderbynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yw sut bydd cysylltiad yn cael ei wneud o'r safle i'r grid cenedlaethol. Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ogystal yn rhannu'r pryderon yma gan nad yw'r ardal fel ag y mae gyda phresenoldeb peilonau trydan fel y gwelir ymhellach i lawr y dyffryn er enghraifft. Mi fyddai presenoldeb peilonau o fewn Dyffryn Peris yn anerbyniol oherwydd yr effaith niweidiol ar y tilrun. Mae'r ymgeisydd wedi datgan mai'r bwriad fyddai i gysylltu'r safle i'r isbwerdy ym Mhentir o dan ddaear gan ddefnyddio'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Mi fyddai'r agwedd yma y tu hwnt i ffiniau'r datblygiad arfaethedig ag yn destun caniatad pellach.

5.13 Budd cymunedol

5.13.1 Mae'r datblygwyr wedi cyflwyno pecyn o wybodaeth sydd yn eguro sut y byddant yn cyfrannu trwy Gronfa Cymunedol, at brosiectau neu waith grwpiau lleol (mae hyn yn arferol mewn cysylltiad a phrosiectau o'r math a maint yma ag yn unol a chyfarwyddyd cenedlaethol. Maent yn datgan:

- Fod datblygiad y cynllun arfaethedig yng Nglynrhonwy gan gwmni Quarry Battery yn cynnig buddiant i gymunedau lleol trwy 5 ffurf:
- 1) Cyfraniad uniongyrchol o £250,000 i ariannu prosiectau cymunedol lleol wedi ei drefnu fel cyfraniad cychwynnol o £125,000 ar ddechrau'r cynllun a'r gweddill i'w dalu wedi comisiynu'r cyfleusterau.
- 2) Cyfraniad uniongyrchol o £10,000 y flwyddyn i gefnogi prosiectau cymunedol lleol cyfredol.
- 3) Swyddi a buddiant economaidd yn ystod cyfnod adeiladu
- 4) Swyddi tymor hir yn ystod y cyfnod gweithredol
- 5) Taliadau hir dymor o drethi busnes

5.13.3 Mi fyddai Cylch Gorchwyl y Gronfa Cymunedol yn destun cytundeb rhwng Cwmni Quarry Battery a Chyngor Gwynedd. Y bwriad fyddai llunio Cylch Gorchwyl Drafft mewn

cydweithrediad rhwng swyddogion y Cyngor a Chwmni Quarry Battery. Gan mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lleol a'r prif dirfeddiannwr yng nghyd-destun y safle gyfan, rhaid diogelu'r cyfraniad cymunedol trwy drefniant cyfreithiol ffurfiol megis cytundeb 106 neu drefniant lês/gwerthiant y tir.

- 5.13.4 Nid oes cytundeb terfynol ynglyn a manylion y trefniant yma na'r swm sydd wedi ei gynnig gan y datblygwyr, mi fydd negodi o dderbyn hawl i weithredu rhwng swyddogion yr adran, uned eiddo a'r adran gyfreithiol yn nhermau'r union drefniadau a'r swm disgwylidig.

5.14 Datganiad Ieithyddol a Chymunedol

- 5.14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad yma fel asesiad ffurfiol o effaith y datblygiad arfaethedig ar y gymuned yn lleol a'r iaith Gymraeg. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r uned bolisi ynglyn a'r mater, a chanfuwyd mai'r math yma o asesiad fyddai'n briodol ag iddo gael ei lunio yn unol a gofynion Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg mabwysiedig Cyngor Gwynedd.

- 5.14.2 Mae'r datganiad yn egluro sut mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith positif ar y gymuned yn lleol ag yn ehangach ag ar yr iaith Gymraeg, yn benodol:

- Cyfleon gwaith tymor byr a hir dymor.
- Datblygu safle o ddi-ddordeb hanesyddol gan gadw ag ehangu nodweddion pwysig presennol i'r dyfodol a diogelu'r amgylchedd naturiol yn nhermau'r tirlun, ecoleg ag etifeddiaeth diwylliannol.
- Cynnal hawliau tramwy trwy wro llwybrau yn ystod cyfnod adeiladu a'u ail-sefydlu wedi cwblhau'r datblygiad.
- Datblygiad cynaliadwy gan fod bywyd hir dymor o o leiaf 125 mlynedd iddo.
- O ganlyniad i'r cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd, datgelir fod 76% o'r rhai ddaru ymateb yn ystod y cyfnod yma yn gefnogol i'r bwriad.
- Defnyddir yr iaith Gymraeg yn gwbl gyfartal gan gwmni Quarry Battery, ag fe welir fod yr arddangosfeydd a gynhaliwyd a'r llenyddiaeth a gynhyrchiwyd wedi sicrhau fod y Gymraeg yn cael lle cyfartal.

- 5.14.2 Ystyrir fod y ddogfen yma yn unol a gofynion Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Mae'n cyfeirio at y materion perthnasol ag yn cadarnhau y bydd y datblygiad yma o fudd i'r gymuned yn lleol trwy gynnig cyfleon gwaith ag yn sicrhau fod dyfodol i bobl ifanc yr ardal i barhau i fyw yn lleol tra'n atgyfnerthu statws yr iaith.

5.15 Unrhyw ystyriaethau eraill

- 5.15.1 Derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol i'r hyn a gyflwynwyd yn wreiddiol ac fe ystyrir fod y wybodaeth yma wedi ei hysbysu yn briodol ag yn unol a gofynion rheoliadau perthnasol. Rhoddwyd copiau o'r wybodaeth yma yn ychwanegol i'r dogfennau gwreiddiol ar safle we y Cyngor, ag mewn lleoliadau hygyrch megis swyddfa'r gwasanaeth ym Mhwllheli, pencadlys y Cyngor yng Nghaernarfon ag yn y Llyfrgell yn Llanberis.

5.16 Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus

- 5.16.1 Fel y nodir yn flaenorol, derbyniwyd nifer sylweddol o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus naill ai o blaid neu yn erbyn y datblygiad arfaethedig. Y prif bryderon a nodwyd oedd yr effaith ar fwynderau trigolion lleol, materion trafnidiaeth, effaith ar y tirlun, colli adnoddau/hawliau tramwy, effaith amgylcheddol niweidiol, cydymffurfiaeth gyda gofynion a threfniadau Rheoliadau perthnasol, effaith ar ecoleg yr ardal, effaith ar safleoedd a

rhywogaethau wedi eu gwarchod yn benodol Llyn Padarn/Torgoch/Afon Gwyrfa, archaeoleg a'r tirlun hanesyddol ayyb.

5.16.2 Rhoddwyd ystyriaeth lawn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wrthwynebiadau fel ystyriaethau materol wrth baratoi argymhelliad ar gyfer y cais hwn. Yn ogystal, mae'r ystyriaethau materol sydd yn berthnasol i'r cais yma wedi cael eu ymgorffori yn yr adroddiad a'u hasesu yn unol â'r polisi a chyfarwyddyd perthnasol. O ganlyniad ag wedi llwyr ystyried yr holl faterion a nodwyd, credir fod y cais yn dderbyniol a thrwy rheoli a monitro pellach trwy gytundeb ffurfiol, credir y bydd y datblygiad arwyddocaol yma yn dderbyniol ac yn parhau i gael mewnbwn iddo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chyrrff perthnasol eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Archaeoleg, Uned Trafnidiaeth, Uned Hawliau Tramwy, Gwarchod y Cyhoedd ayyb.

6. Casgliadau:

6.1 Mae'r datblygiad arfaethedig yma yn debygol o gael effaith ar y tirlun lleol yn ystod cyfnod yr adeiladu ag am gyfnod wedi hynny nes fo camau lliniaru wedi ymsefydlu. Mae'r effaith amlycaf yma yn debygol o fod ar ran Cefn Du/Chwarel Fawr o'r safle yn bennaf, mae'r safle yma yn amlwg wedi bod yn ardal diwydiannol prysur ar un cyfnod ond mae'r cyfnod ddefnydd wedi gweld rhannau helaeth yn ail-sefydlu yn naturiol. Er hynny, fe ystyrir y byddai effaith hir dymor y datblygiad yn cael ei liniaru ag na fyddai'r edrychiadau parhaol yn cael effaith niweidiol ar y tirlun lleol o safbwynt edrychiadau agos a phell. Rhaid cofio fod y mwyafrif o'r datblygiad a fwriedir oddimewn i safle Glynrhonwy sydd eisioes wedi ei ddatblygu ag sydd wedi ei ddynodi yn ffurfiol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd fel Safle Datblygu Strategol, ystyrir felly fod yr egwyddor o ddatblygiad eisioes wedi ei dderbyn ag nad oes materion polisiau cynllunio perthnasol sydd yn gwrthdweud a chyfiawnhau gwrthodiad.

6.2 Mae'r datblygiad wedi ei asesu'n llawn gan ddatgan na fyddai'n cael effaith niweidiol uniongyrchol neu an-uniongyrchol ar rhywogaethau a safleoedd wedi eu gwarchod gan gynnwys Llyn Padarn ag Afon Gwyrfa. Rhaid derbyn a chytuno ar nifer o asesiadau pellach trwy drefniant amodau ffurfiol a bydd rhaid derbyn trwydded ar gyfer rhai agweddau o'r datblygiad cyn gellir cychwyn ar y gwaith adeiladu.

6.3 Mae'r math yma o ddatblygiad angen lleoliad, amgylchiadau ag adnoddau penodol ar ei gyfer. Mae'r safle yma yn ei gyfanrwydd yn cynnig hynny ag mi fyddai yn cyfrannu yn sylweddol i'r economi leol yn y tymor byr ag i'r hir dymor.

6.4 Mae angen sicrhau fod cynlluniau adfer yr adaloedd amlycaf yn cael ei wneud gyda chytundeb llawn i fanylion y gwaith bwriedig, yr un mor bwysig fydd rhaid sicrhau fod monitro cyson a thrylwyr yn cael ei wneud er mwyn sicrhau fod cynefinoedd a llystyfiant yn ail-sefydlu yn unol ag argymhellion yr asesiadau y cytunir arnynt a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y Datganiad Amgylcheddol.

6.5 I grynhoi felly:

- Mae'r datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor ag y byddai'n cyfrannu'n bositif tuag at gynhyrchu ynni trwy ddulliau cynaliadwy yng Ngwynedd ag o fewn safle sydd wedi ei ddynodi fel Safle Datblygu Strategol, ystyrir fod hyn yn unol a gofynion polisiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn benodol polisiau A1, A3, C27, B23, C3, C5, C6, C27, D5.
- Rhaid cytuno ar gynllun tirlunio a manylion adfer safleoedd, o wneud hynny, bodlonir gofynion polisiau A3, B23, B27.

- Mi fyddai'r datblygiad yn cyfrannu'n sylweddol tuag at yr economi lleol trwy ddarparu cyfleon gwaith a chynnig cyfraniadau ariannol er budd y gymuned leol (cytundeb terfynol ei angen ynglyn a'r union drefniadau a maint y cyfraniadau a gyflwynir) ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau A2, A3, C6.
- Mae'r cais wedi cael ei asesu'n llawn yn nhermau effaith a thrawiad ar faterion archaeolegol a materion yn ymwneud a'r tirlun gan gynnwys Tirlun Hanesyddol Eithriadol Dinorwig a Pharc Cenedlaethol Eryri. Canfuwyd na fyddai effaith niweidiol hir dymor uniongyrchol neu an-uniongyrchol ag felly ystyrir nad yw'r bwriad yn groes i ofynion polisiau B7, B10, B12, B14, B23.
- Yn unol a gofynion amodau caeth fel yr awgrymwyd gan wasanaethau eraill ag asiantaethau allanol a thrwy rheoli a monitro trylwyr a chyson, ystyrir y gosodir camau diogelu trylwyr yn eu lle er mwyn sicrhau na fyddai'r datblygiad (yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu) yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd yn lleol megis yr amgylchedd dŵr lleol a chyfanwydd ardaloedd dynodedig megis Llyn Padarn ag Afon Gwyrfa. O wneud hyn, ystyrir fod gofynion polisiau A1, A3, B15, B16, B17, B20, B23, B32, B33, B34 yn cael eu bodloni.
- Mi fyddai gweithredu'r gwaith adfer bwriedig yn golygu creu a rheoli cynefinoedd, mesurau lliniaru a gwaith tirlunio ag adfer tirlun yn arbennig ar gyfer rhywogaethau wedi eu gwarchod, fe wneir hyn er mwyn osgoi effaith niweidiol hir dymor ar fywyd gwyllt yr ardal. Fe wneir y gwaith yma trwy gyflwyno a chytuno ar gynnwys asesiadau a rhaglenni gwaith penodol ychwanegol yn ogystal a cydymffurfio gyda gwybodaeth a gyflwynwyd eisioes megis y Datganiad Amgylcheddol. Mae effaith negyddol yn debygol o fod ar rai coed sydd wedi eu gwarchod o fewn safle Glynrhonwy. Gwneir pob ymgais i warchod a chadw'r coed yma trwy osod amodau sydd yn gofyn am wybodaeth pellach ar ffurf cynlluniau manwl a chynllun rheolaeth i'w gytuno arno a dynodi ardaloedd penodol i'w gwarchod yn gyfangwbl rhag unrhyw ddatblygiad. Mae'n anodd penderfynu ar y mater yma o flaen llaw oherwydd y bydd asesiadau a arolygon manwl yn cael eu cynnal yn ddiweddarach ag wedi cwblhau rhain, y bydd y darlun yn amlygu ei hun. Trwy gytuno ar y manylion hyn yn ffurfiol, bodlonir amod B19.
- Cwblhawyd 'Penderfyniad o Effaith Tebygol Sylweddol' (Determination of Likely Significant Effect) o dan Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 oherwydd y potensial y byddai'r datblygiad yn ei gael ar un o 5 nodwedd Safle Cadwraeth Arbennig (SAC) Afon Gwyrfa a Llyn Cwellyn. Canfuwyd na fyddai'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar nodweddion y safle cadwraeth pwysig yma. Yn ogystal mae asesiad llawn wedi ei wneud o'r datganiadau ecolegol/amgylcheddol perthnasol a gyflwynwyd mewn perthynas a rhywogaethau wedi eu gwarchod, ecoleg, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Llyn Padarn ayyb. Mae'r wybodaeth yma a'r wybodaeth diwygiedig a dderbyniwyd ar gais Cyngor Cefngwlad Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi ei gadarnhau fel yn dderbyniol a gosodir cyfres o amodau caeth gan gynnwys "Construction Environmental Management Plan" i'w gytuno arno er fodd yr awdurdod lleol, mewn ymgynghoriad â CNC. Ystyrir felly fod y datblygiad yn dderbyniol ag yn bodloni gofynion polisiau A1, A3, B15, B16, B17, B20.
- Mae cynnwys amodau perthnasol a'r angen am ganiatadau pellach yn unol a rheoliadau perthnasol cysylltiol megis gofynion yr uned briffyrdd, uned gwarchod y cyhoedd, adeiladu cynaliadwy ayyb yn golygu y ceir rheolaeth pellach dros agweddau gyda'r potensial i amharu neu greu niwsans ar fwynderau cyffredinol a phreswyl lleol gan gynnwys hawliau tramwy, symudiadau a'r rhwydwaith ffyrdd lleol, sŵn ayyb. Trwy gytuno ar fesuriadau a manylion gwaith a monitro yr hyn a wneir, mae'n bosib bodloni gofynion polisiau C7, C29, CH22, CH25, CH29, CH30, CH33, CH36.
- Mae'r datblygiad arfaethedig yn gwneud defnydd priodol o ffurf naturiol a phresennol y safle.
- Mae'r math yma o ddatblygiad angen amgylchiadau a lleoliad penodol, mae daeareg addas ffurfiant llechi Llanberis er enghraifft yn angenrheidiol ag yn briodol ar gyfer y datblygiad.

- Datgelir trwy amod ffurfiol, rhaglen gwaith bwriedig gan gynnwys yn benodol, cyfnod a manylion datblygu cam wrth gam. Trwy gytuno ar fanylion fel yma, rheolir y datblygiad er mwyn sicrhau fod mwynderau trigolion lleol yn cael eu gwarchod.

7. Argymhelliad:

- 7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i gytuno ar amodau a chytundeb ynglŷn â threfniadau'r gronfa gymunedol gan gynnwys maint y cyfraniadau tebygol.

Amodau:

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda cynlluniau
3. Manylion deunyddiau a chynlluniau manwl strwythurau
4. Archaeoleg
5. Materion Priffyrdd
6. Amodau Cyfoeth Naturiol Cymru (o safbwynt materion ecolegol ac o safbwynt diogelu'r amgylchedd)
7. Materion Bio-amrywiaeth
8. Materion Coed
9. Amodau Dŵr Cymru
13. Materion Gwarchod y Cyhoedd
14. Hawliau Tramwy
15. Tirlunio